# RECORDERS' NEWSLETTER

**Cylchlythyr y Cofnodwyr 35 (Gaeaf 2015/16)**

Dyma flwyddyn arall, a Chylchlythyr rhagorol arall. Diolch o galon am yr holl gofnodion ac adroddiadau.

**Kevin Oates**

Fel y gŵyr llawer ohonoch, bu farw ein cyd-weithiwr Kevin Oates yr haf yma. Colled drom yw hon, yn esgor ar lu o ofidiau. Un o'r rhai yw ein bod wedi colli un o bencampwyr mawr, di-glod, cadwraeth natur a chofnodi bioamrywiaeth. Bu Ken yn Rhodiwr Cefn Gwlad gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf am bron ugain mlynedd. Cyn hynny, bu'n cyflawni'r un swyddogaeth gyda hen Gyngor Dosbarth Rhondda. Meddai ar ddawn at dawelu dyfroedd ystormus mewn cyfarfodydd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Roedd yn ffotograffydd bywyd gwyllt brwd ac eiddgar, a'i waith ef oedd dros hanner o archif ffotograffau'r Cyngor. Gwnâi gyfraniadau cyson, rhagorol i'r 'Cylchlythyr'. Bu'n brif ysgogydd i waith rheoli bioamrywiaeth safleoedd cefn gwlad y Cyngor. Dyma gyd-weithiwr gwych heb os, a chanddo synnwyr tawel a chrafog o ddigrifwch.

Mae enw Kev i'w weld yn rheolaidd yn archifau 'Cylchlythyr y Cofnodwyr', a gadawai negeseuon am ei ddarganfyddiadau o hyd. Roedd ef ymhell ar flaen y gad o ran defnyddio camerâu digidol ar gyfer adnabod y bywyd gwyllt. Cymerai ddiddordeb arbennig mewn tynnu lluniau o ffyngau, a'u hadnabod. Dyma bwt o Gylchlythyr 9 (yn ôl yn 2003/4) '*Ddiwedd Hydref cafodd Kev hyd i ddewis da o gapiau cŵyr o gwmpas y llwyfan gwylio hebogiaid tramor ym Mharc Gwledig Cwm Dâr. Yn ogystal â hyn, fe gofnododd ystod rhagorol ac arbennig o ffyngau o Warchodfa Natur Leol Glyncornel Dyma rai ohonynt: Coes las y coed (ofnadwy o ffein); Amanita submembranacea (perthynas agos i'r Cantharellus); gwyntyll y pinwydd (Thelephora terrestria), rhywogaeth genedlaethol brin; yr hyfryd Russula sanguina; a'r siantrel (Cantharellus cibarius), brenhines y danteithion. Dyma i chi gymysgedd gogoneddus o'r hardd, y rhyfedd, yr anhygoel, y ffein, a'r marwol o wenwynig. Mae Kevin yn defnyddio camera digidol er mwyn cofnodi ffyngau - ffordd ardderchog o gofnodi yn ei brofiad ef.*

Roedd ef yn ei elfen o hyd ac yntau allan hwnt ac yma ar hyd y lle. Un o'n hoff atgofion ohono yw chwilio am droellwyr mawr un noson fwyn o Orffennaf, yn uchel i fyny ar lwyfandir Llanwynno. Tua'r adeg honno y dechreusom ni sylweddoli fod troellwyr mawrion yn dechrau swnian. Wrth i ni wrando ar dwrw aflafar y troelli a'r clapio adenydd, aethom ni ar drywydd rhithiau niwlog y troellwyr mawrion. Roeddent

yn gweu drwy'i gilydd ar draws y tir agored, yn hel cannoedd o wyfynod mawr gwyn. Roedd storm fellt a tharanau ymhell i ffwrdd, uwchben Dyffryn Nedd. Câi'r wybren yn y gorllewin ei goleuo o bryd i'w gilydd gan y dreigiau mellt. Byddai'r rhain yn taflu rhyw ddisgleirdeb llym trydanaidd am ennyd fer ar y tirwedd llwm a hardd, gyda/i wyfynod a'i droellwyr mawrion. Erys rhyw gof o'r nefoedd yn ymagor ychydig cyn i ni ymadael.

Yn ogystal â hyn, bu Kev yn allweddol ynglŷn â mabwysiadu pori er lles cadwraeth ar ein Safleoedd Cefn Gwlad. Lawer o flynyddoedd yn ôl, yng nghwmni Becky Davies, cawsom ddiwrnod o wanwyn wrth ein bodd yn cael gweld y gwaith pori er lles cadwraeth ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Cawsom amser braf yn cael picnic ar Ben Strwmbl ac yn gwylio **llamidyddion** a **huganod** yn bwydo ar Fae Ceredigion. A dyma ni'n dechrau meddwl, o weld da (gwartheg) yn pori ar y clogwyni serth, a cherddwyr yn llwyddo i rannu'r lle gyda nhw, y dylem geisio ennill yr un buddion cadwraeth yn Rhondda Cynon Taf. Byddai ef wedi bod yn falch i weld ailsefydlu cynllun PONT yn ddiweddar, Prosiect Pori Anifeiliaid i Gymru. Hwntw nodweddiadol oedd Kev, wastad yn benderfynol o wynebu pob problem a phwnio ymlaen doed a ddelo. Dyma ni felly yn pwnio ymlaen hefyd ac, wrth i ni bwnio, gobeithio y byddwn ni'n parhau i adeiladu ar y sail a osododd Kev.

**Tywydd**

Oherwydd glawiad uchaf erioed mis Rhagfyr, y tywydd sy'n mynd â hi. Fe wyddoch chi i gyd gymaint rwyf wedi mopio fy mhen ar ragolygon y tywydd. (Rwy'n dal i hiraethu ar ôl isobarau wedi'u nodi â llaw ar yr hen siartiau!) Ond rwy'n dal i synnu mor gyflym mae rhywun yn anghofio tywydd y gorffennol diweddar. Yn ffodus, mae gen i ein gorsafoedd tywydd ein hunain er mwyn f'atgoffa. Dyma ni'n cychwyn felly ym mhen uchaf y Rhondda Fawr, lle gyrrodd Marcus Middlehurst ei gofnodion glawiad ardderchog atom o fis Mehefin i fis Rhagfyr. Dyma nodyn Marcus ar gyfer mis Mehefin a mis Gorffennaf: '*Rhyw law mân a thawch ddaeth i'n rhan ni gan amlaf. A dyw'r darlleniadau ddim yn adlewyrchu hynny. Prin roedd y glaw, yn ysgubo ar hyd ochr y cwm ond heb ddisgyn i'r mesurydd glaw!'* Roedd *cyfanswm* **mis Mehefin** o 160.5mm (gyda 115mm ar y 1$^{af}$ a 19 o ddyddiau heb law) yn agos iawn at gwlybaniaeth fesuradwy **mis Gorffennaf,** sef 187mm (gydag uchafbwynt o 37mm ar y 13$^{eg}$, a 15 o ddiwrnodau sych). Haf heb fod yn rhy felyn na thesog a gawsom ni fodd bynnag, ac yna, fel sy'n digwydd mor aml, aeth hi'n **Awst** drybeilig o wlyb, gyda 319 mm o lawiad (gyda 52 mm ar y 26ain), a gafodd yr uchafswm. Bu 12 o ddyddiau sych, serch hynny, yn gydnaws â thueddiadau diweddar. Ond bu'r hydref cynnar wedyn yn gynyddol fwyn ac yn sych, gydag uchafswm o 215 mm i **fis Medi**. (Y 14$^{eg}$, gyda 72 mm, oedd y dydd mwyaf glawog, gyda 20 o ddyddiau sych.) Dim ond 140 mm yn unig a gawsom ni ym **mis Hydref,** gyda 36 mm ar y 5$^{ed}$ ac 20 o ddyddiau sych eto. Dechrau tymor y stormydd fu'n fan cychwyn i ddiwedd yr **hydref** a **mis Tachwedd**. Cafwyd 607 mm o wlybaniaeth, gyda'r uchafbwyntiau o 77 mm ar y 30$^{ain}$ a 70 mm ar y 6$^{ed}$, heb ond pedwar o ddyddiau sych. Roedd **mis Rhagfyr** wedyn yn wlypach ac yn fwy ystormus byth, gyda 715 mm o law (63 mm ar y 15$^{fed}$, a dim ond deuddydd pitw yn sych. Yn sgîl hyn i gyd, medrai Marcus nodi adroddiad o 3,518mm fel cyfanswm glawiad 2015 ar gyfer Treherbert. Cymerais gipolwg ar y cyfansymiau blynyddol a gefais gan Marcus. Mae'r rhain yn awgrymu i 2015 fod yn flwyddyn wlyb, ond bod eraill yn wlypach.

Ddigon cwta oedd sylw Mark Evans ar haf 2015 yng Nghwm-bach '*Ni fyddai o hyd - neu o gwbl, chwaith. Yr haf, hynny yw. Dyma fi yn dechrau ymddiheuro drosto, yn*

*mawr hyderu y byddai haul ar fryn yn llythrennol ac yn dechrau rhoi ychydig dywydd teidi i ni yn y pen draw. Erbyn dechrau mis Awst, roedd y geiniog wedi disgyn ac mi sylweddolais i taw hyn roedd hi am fod.*

*Drwy gydol yr haf, tri chyfnod gawsom ni o fwy na deuddydd yn olynol heb ddim glawiad o gwbl. Dau gyfnod felly a gawsom ni ym mis Mehefin: un gyfres o bum niwrnod, ac un arall o dri diwrnod. Deuddydd yn unig a fu heb unrhyw lawiad o gwbl ym mis Gorffennaf. Pedwar diwrnod yn olynol fu heb law ym mis Awst.*

*Bu 29 o ddyddiau heb unrhyw lawiad o gwbl drwy gydol yr haf. (Cawsom gryn 39 o ddyddiau heb ddim glawiad mesuradwy fodd bynnag.) Mae hyn yn weddol agos at y patrwm arferol a normal, gyda rhyw ddwy draean o unrhyw gyfnod penodol â rhyw fath o wlybaniaeth ynddynt.*

*Mi welais yr holl gwyno yn y Wasg yn sôn am fis Awst eleni yn wlypach na'r un mis Awst erioed. Ond nid oedd pethau yn rhy wael yn fy ngardd i. Rwy'n cadw cofnodion glawiad ers 1994. Y mis Awst yma oedd y pedwerydd wlypaf yn y cyfnod hwnnw, gyda chyfanswm o 196.75mm. Yn 2008 roedd yr un gwlypaf, gyda 302.96mm.*

*Diddorol yw ystyried y glawiad fesul tymor hefyd. Haf eleni oedd y chweched wlypaf ers 1994, ond cawsom y chwe haf gwlypaf i gyd yn ystod y naw mlynedd ddiwethaf. Mae'n hala rhywun i feddwl, yntefe?*

Dyma sylw gan Mark tua'r Nadolig: *"Roedd mis Hydref yn annhymhoraidd o dda, ond mae'r flwyddyn yn tynnu tua therfyn â'r tywydd mwyaf erchyll. Rwyf wedi diweddaru fy nhaenlen dywydd, a'i hychwanegu ynghlwm gyda'r daenlen siartiau glawiad. Fe welwch chi o'r rhain fod mis Medi hwn yn fwy sych na'r cyfartaledd, gyda mis Hydref sych iawn i ddilyn, ac wedyn y mis Tachwedd pedwerydd gwlypaf ers i mi ddechrau cadw cofnodion. Bu tymor yr hydref, yn ei gyfanrwydd, ychydig yn fwy sych na'r cyfartaledd*. *Gobeithio'n arw y cawn ni beth tywydd oerach (ond nid eira) dros y gaeaf hwn. Nid yw gaeaf glas mwyn byth yn beth da.* A finnau'n ysgrifennu, mae cennin Pedr yn brigo i'r wyneb, cenau cyll ar y coed cyll, a'r mwyeilch yn canu chwe wythnos yn gynnar. Mae rhagolygon am aeaf mwyn a gwyrdd i'w gweld yn fwyfwy tebygol. *'Blwyddyn ryfedd,' meddai Mark wrth gloi, "gyda gwanwyn sychach na'r cyfartaledd yn dilyn gaeaf oedd hefyd yn sychach na'r cyfartaledd. Ond nesaf fe gawsom ni haf oedd yn wlypach na'r cyfartaledd. A dweud y gwir, dyma'r haf chweched wlypaf ers i mi ddechrau cadw cofnodion glawiad ym 1994.' Roedd mis Medi a mis Hydref yn sych iawn, yn enwedig mis Hydref. Ond gan i fis Tachwedd fynd yn wlypach, bu'r hydref hwn yn gyffredinol yn wlypach na'r cyfartaledd. Y mis Rhagfyr hwn oedd y Rhagfyr gwlypaf - ac, yn wir, y mis gwlypaf - a gofnodais i erioed! Un ffaith sy'n awgrymu hyn yw fod ychydig dros chwarter cyfanswm glawiad 2015 yn fy ngardd i wedi disgyn ym mis Rhagfyr. O ran y cyfanswm blynyddol o 2,001.6mm, roedd hwn yn uwch na'r cyfartaledd o ran gwlybaniaeth o'r blynyddoedd a gofnodais i, ond bu naw o flynyddoedd yn wlypach. Dyma i chi awgrym o ansefydlogrwydd yr haf hwnnw. Rhwng trydedd wythnos mis Ebrill, ac wythnos olaf mis Medi, ni chawsom byth saith niwrnod yn olynol heb ddim glawiad o gwbl ynddynt. Yn gynnar ym mis Medi y cawsom y profiad tebycaf i hyn. Bu cyfres o chwech o ddiwrnodau heb ddim glawiad, yn fesuradwy neu fel arall.* Un o eitemau mwyaf trawiadol cyfoeth data Mark oedd ei gyfnod o 253 diwrnod yn 2015 gyda pheth gwlybaniaeth, a 222 gyda 0.2 mm neu'n fwy. Mae rhywun yn gofyn weithiau beth yw diben mynd o'r tŷ heb ymbarél!

Yn ôl Mark yn aml iawn, bydd y glawiad yn Nhreherbert  tua hanner y glawiad yn ôl Marcus. Os am gymharu a gwrthgyferbynnu'u cofnodion, wele rai o brif fannau cofnodion tywydd Mark:

Ym mis **Mehefin**, 87.1 oedd y cyfanswm, gan gynnwys 11 diwrnod gyda 0.2 neu'n rhagor o wlybaniaeth. 19.75 gradd Celsius oedd y tymheredd uchaf, ac 8.87 gradd Celsius oedd yr isafswm ar gyfartaledd. Digon oer oedd dechrau'r mis, gydag uchafswm tymheredd o ddim ond 11.2 gradd ar y 1af o Fehefin. Y 30ain oedd y peth agosaf a gawsom ni at don wres, gyda 28.9 gradd.
Cyfanswm **mis Gorffennaf** oedd 96.35mm, gyda 22 o ddiwrnodau gyda 0.2mm neu fwy o law. 19.52 gradd Celsius oedd yr uchafswm tymheredd cyfartalog (gydag uchafswm o 26.4 ar 1af Gorffennaf), gyda isafswm o 10.93 gradd Celsius ar gyfartaledd.
Ym mis **Awst** roedd 196.75 gydag 20 niwrnod o 0.2 neu'n fwy o law. 19.10 Celsius oedd yr uchafswm tymheredd cyfartalog (uchafswm o 23.4 gradd ar yr 22ain, ac isafswm ar gyfartaledd o 10.25 gradd Celsius.
92.4 mm oedd cyfanswm mis **Medi**, gyda 13 diwrnod gyda 0.2  mm neu'n fwy o law, uchafswm tymheredd cyfartalog o 16.68 gradd Celsius, ac uchafswm o ddim ond 20 gradd Celsius ar yr 11eg, ac isafswm ar gyfartaledd o 7.06 gradd Celsius.
Dim ond 78.7 mm yn unig o law a fu ym mis **Hydref**, gyda 12 niwrnod o 0.2 neu'n fwy o law, uchafswm o 14 gradd Celsius (17.5 gradd Celsius oedd yr uchaf, ar y 1af, ac isafswm ar gyfartaledd o 5.93 gradd Celsius.
Roedd glawiad **mis Tachwedd** o 309.6. gyda 26 niwrnod o 02 mm neu'n fwy o law, yn adlewyrchiad o'r tymhestloedd hydrefol a ddechreuodd ysgubo drosom ni. Roedd y tywydd yn fwyn, gydag uchafswm o 11.71 gradd (16.8 oedd y tymheredd, ar y 1af, a 6.54 gradd oedd yr isafswm ar gyfartaledd. Ond serch hynny mi gawson ni ryw flas bach o'r gaeaf, gyda dwy noson â thymereddau islaw rhewi. -2.9 gradd Celsius oedd yr isafswm tymheredd isaf, ar y 23ain.
Camp **mis Rhagfyr** oedd 505.55mm o law, gyda 0.2 neu fwy ar bob diwrnod. Cawsom uchafswm tymheredd cyfartalog syfrdanol o 11.41 gradd Celsius, ac isafswm ar gyfartaledd o 6.95 gradd Celsius. Ond mae golwg mwy annormal fyth ar y ffigurau hyn pan welwn fod yr uchafswm tymheredd wedi cyrraedd dros 12 gradd Celsius ar 12 niwrnod. (13.6 gradd Celsius oedd y tymheredd uchaf un, ar 19eg.) Roedd y tymherdd dydd isaf ar gyfer yr mis cyfan  mor uchel â 8.4. Ni chawsom ni rew gymaint ag unwaith ym mis Rhagfyr, 1.3 gradd Celsius oedd yr isafswm tymheredd.

Cawsom ambell i fyfyrdod gan Paul Marshman, Llwynypïa, ar amrywiadau ac anghysondebau'r flwyddyn. Aeth mis Awst, nododd Paul, yn gyfnod braidd yn wlyb, ac yn eithaf diflas yn aml. O edrych yn ôl dros ei gofnodion ar gyfer ei ardd, fe nododd fod yr 8.8 modfedd o law y mis Awst yma ymhell o fod yn anghyffredin. Bu 9.2 modfedd yn yr un cyfnod yn 2014, 7.9 modfedd yn 2013, a 8.8 modfedd yn 2012. Rhyfeddai hefyd am eithafion meteoregol mis Rhagfyr, gydag uchafswm tymheredd cyfartalog o 11.2 gradd Celsius. Roedd hynny cryn 1.1 gradd Celsius yn uwch na mis Ionawr 1974, ei record blaenorol ar gyfer un o fisoedd y gaeaf. Nododd hefyd fod yr isafswm tymheredd ar gyfartaledd, sef 6.3 gradd Celsius, yn uwch nag uchafswm mis Rhagfyr 2010, sef 3.6 gradd Celsius. (3 gradd Celsius oedd yr isafswm ar gyfartaledd y pryd hwnnw.) Nododd Paul hefyd iddo ganfod 20 modfedd o law ym mis Rhagfyr (gyda 16 modfedd ym mis Tachwedd hefyd). Serch hynny, ni fu'r mis Rhagfyr hwn yn anarferol o wlyb. 90 modfedd, neu tua 2,250 mm, oedd cyfanswm glawiad 2015. I grynhoi, felly, nid oedd mis Rhagfyr 2015 yn anarferol o wlyb ar gyfer

y Rhondda. (Stori arall oedd hi yng Nghwm-bach, yng Nghwm Cynon). Ond, at ei gilydd, dyma'r Rhagfyr mwynaf ers cyn cof.

Gwnaeth Mark Evans sylw hefyd ar amrywiad bach diddorol arall yn hinsawdd Rhondda Cynon Taf, a'r ffurf ar wlybaniaeth a brofwn ni. Soniodd hefyd fod '*Alan Rosney* yn Nantgarw, yn Ne-ddwyrain pellaf Rhondda Cynon Taf*, yn cofnodi cyfran helaeth o'i lawiad haf ar ffurf cawodydd. Roedd ei gofnodion glawiad ef yn mynd yn uwch a mwy yn aml na'm rhai i: mae'r Fro, a'r ardaloedd sy'n ffinio â hi, yn fwy agored i gawodydd trymion gyda tharanau na ni sy'n byw yn yr entrychion. Rydym ni yn tueddu i gael y mathau mwy cyffredin arferol o lawiad. Byddwn ni'n colli cyfle i gael mwynhau stormydd taranau'.*

**Adar**
Rhoes Stuart Jones grynodeb ardderchog i ni o nifer o gofnodion dethol o'r Graig, Pontypridd: '*Mae'r Cylchlythyr wedi f'atgoffa o nifer o bethau byw a welais yn ardal y Graig yn ddiweddar. Dyma fi o'r diwedd yn gyrru'r hanes. Roedd o leiaf ddau o **delorion y coed** yn canu yng Nghoed Gelliwion yn gynnar ym mis Mehefin y gwanwyn hwn, a **gwybedog mannog** hefyd. Yn yr ardal gyfagos, mi glywais **gog** yn canu - y gyntaf a glywais ar y Graig ers deng mlynedd o leiaf. **Ymddengys fod barcutiaid cochion** hefyd yn cytrefu'r ardal. A finnau'n cerdded yn ôl i'r Graig o Drefforest ar hyd Lwybr Cylchol Pontypridd, byddaf yn gweld pâr ohonynt yn rheolaidd. Gwelais un uwchben canol tref Pontypridd fore heddiw hyd yn oed. Meddyliais y byddai'r cyswllt isod o ddiddordeb i chi hefyd. Dyma gyfrol E. Cambridge Phillips, 'The Birds of Breconshire', a gyhoeddwyd ym 1899. Mae Philips yn sôn am weld eryrod euraid ym Morgannwg. Yn anffodus, tuedd yr adeg honno oedd saethu popeth oedd o'r diddordeb lleiaf! https://archive.org/stream/birdsofbreconshi00phil#page/n7/mode/2up'*

Cafodd Paul Denning ac Ade Meredith hyd i **delor y cyrs** yn canu ar y gwelyau cyrs, corsleoedd, gwelyau brwyn, a chorslwyni ger Glofa'r Cwm yn gynnar ym mis Mehefin. Dyna'r brwyn lle clywodd Paul un yn 2014. Mae hyn yn awgrymu yn gryf y gallai'r adar anghyffredin hyn (yn anghyffredin yn Rhondda Cynon Taf, fodd bynnag) fod yn nythu a bridio. Mi welais i **hwyaden ddanheddog** yn hedfan uwchben Pontypridd ar 9fed Mehefin. Dyna fi felly yn dechrau gofyn a allai'r hwyaid anferthol hyn fod yn aros i nythu.

Mae'n debyg fod y cogau wedi dechrau cael gwell hwyl arni yn 2015. Fe glywodd Barbara un yn agos i Fferm Gelli Wrgan, (ar ymyl Coedwig Gwynno Sant, ger Ynysybŵl). Yn ôl Barbara, '*Roedd hi fel tiwn gron drwy'r dydd ddoe, sef 24ain Mehefin. Aeth dyfalbarhad yr aderyn yn ormod, a dechrau ein gyrru yn benwan!*' Rhoes Barbara Castle adroddiad o weld nifer o bethau braf yn ei gardd yng Nghwm Cynon. Ymhlith y rhain roedd **llinos** wrywaidd (y cyntaf ers 20 mlynedd), **telor penddu**, bob un yn haeddu sylw. Ar yr un pryd, serch hynny, fe nododd hi nad oedd **cnocellau brith mwyaf** i'w gweld o gwbl eleni. Bu hi'n ddigon ffodus hefyd i gael '*pip yn eithaf rheolaidd ar **dylluan frech** yr haf hwn ar y llinell drydan o flaen y tŷ'.*

Adroddiad arall ym mis Mehefin oedd hwnnw gan Paul Marshman, o fam yng Nglyncornel lle cafodd y goedwig ei chlirio. Clywodd Paul ddau o leiaf o droellwyr mawrion yn 'troelli', lle mae'r llystyfiant yn prifio eto. Mae'n un flwyddyn ar ddeg ers i'r troellwyr mawrion gytrefu'r safle. Cwestiwn Paul yw am ba hyd y bydd yn dal yn addas o hyd fel cynefin i'r troellwyr. Daeth adroddiad posibl gan David Harry o

**betrisen** yn Llanilid: bellach, mae'r rhain yn adar prin yn Rhondda Cynon Taf. Yn ogystal â hyn, mae David wedi rhoi gwybod am **fronwennod y dŵr** yn magu ger Ewenni Fach yn Llanharan. Roedd rhai ifainc yn bwydo yn yr afon.

O'r **gwenoliaid duon** oedd yn nythu ym Mhontypridd, ymadawodd y mwyafrif llethol ar y 5$^{ed}$ Awst. Serch hynny, fe roedd ambell i aderyn ar hyd y 13$^{eg}$. Dyna pryd y gwelais i wennol ddu olaf yr haf. Serch hynny, bob dydd ym mis Awst, roedd modd i Paul Marshman adrodd a rhoi gwybod am niferoedd bach yn mynd heibio i lawr Cwm Rhondda. Roedd chwech ohonynt i'w gweld ar yr 2$^{il}$ o fis Medi. Fel rydym ni wedi dyfalu o'r blaen, rhaid taw adar gogleddol  a welodd Paul, wedi cael nytheidiau hwyr a llwyddo i ddianc rhag yr hydref oedd ar eu gwarthaf a sleifio i ffwrdd tua'r De. Gan taw gwenoliaid duon oeddent, mae'n debyg eu bod wedi cyrraedd rhywle uwchben Bae Bizkaia ddiwrnod neu ddau yn ddiweddarach. Creaduriaid cyflym ar y naw ydynt. **Bydd gwenoliaid,** gan gynnwys **gwenoliaid y bondo**  yn aros gyda ni am ychydig yn fwy. Ar y 12$^{fed}$ o Awst mi welais gant neu ragor o **wenoliaid y bondo** yn switian ac yn bwydo uwchben Eglwys Llanwynno. Roedd bargodion bondo Tafarn y Brynffynnon yn dal â llawer o nythod gwenoliaid y bondo, ac roedd dau nyth gwennol yn uchel i fyny yng nghyntedd yr eglwys.

Un arwydd o'r amserau oedd i Paul weld ei **grec yr eithi**n cyntaf ar y 18$^{fed}$ o Awst. Nid aderyn sy'n magu/nythu mo hwn, ond yn mynd yn ôl i lawr y Rhondda eto o rywle arall. Roedd y Rhondda yn gadarnle i grec yr eithin tan yn ddiweddar. Nodaf fod Paul wedi cofnodi 15 o barau yn ei filltir sgwâr ym 1976. Dim ond ambell waith yn unig y bydd Paul yn eu gweld bellach, yn y gwanwyn neu'r hydref. Aderyn bychan yw hwn, ond fod ei ddosbarthiad wedi newid yn fawr. Un o arwyddion cliriad yr hydref yw heidiau o **frychau'r coed** Ym mis Awst eleni, roedd Paul yn gweld heidiau o hyd at 35 ar lechweddau Llwynypïa, neu yn gorffwys ar y ceblau pŵer ar Fryn Penrhys. Yn ogystal â hyn i gyd, roedd Paul yn falch i weld **tylluan wen** yn Llwynypïa, ar ôl absenoldeb o ychydig flynyddoedd, ar 28$^{ain}$ Awst. Ac Alan Rosney yn ymweld â Llanwynno ar drywydd troellwyr mawrion, fe welodd ef dylluan wen ar 20$^{fed}$ Medi, ger Ystad Ddiwydiannol Trefforest. Yn anffodus, my welais dylluan wen wedi marw ar Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys (nid nepell o Gylchfan Ton-teg) ychydig yn ddiweddarach ar yr 28$^{ain}$. Gwelodd Lily Woolrich farcud coch uwchben Trebanog ym mis Mehefin, a gwyliodd delor penddu yn casglu bwyd ym maes parcio Glyncornel, i ac ar gyfer nyth gerllaw. Mi welais i farcud coch yn troi mewn cylchoedd uwchben Trefforest ar 24$^{ain}$ Mehefin, ac un arall uwchben Pen-y-graig yn y Rhondda ar 3$^{ydd}$, a gwelodd Sarah Illsley un uwchben Tŷ Elái, Trewiliam ar 6$^{ed}$.

Fel sy'n arferol bob tro, symudodd adar sy'n gaeafu i mewn wrth i adar mudol yr haf ymadael. Gwelodd Paul Marshman ei hwyaid danheddog cyntaf ar 29$^{ain}$ Awst, gyda haid o ddeg ohonynt ar 1$^{af}$ Medi.  Gwelodd Liz Dean nifer o hwyaid danheddog ar Afon Taf, ym Mhontypridd. Gwelais innau fy hwyad ddanheddog gyntaf ar Afon Elái, ym Meisgyn, yn gynnar ym mis Ionawr 2016. Gwelodd Gareth Henson fflyd o **leision y dorlan** tua diwedd mis Medi. Roedd tri i'w gweld ar Afon Taf ym Mhontypridd, ac un arall yn Hen Gilfan y Barri. Nododd David Harry fod pâr o **elyrch dof** wedi llwyddo i fagu dau gyw yn Llanharan: aderyn anfynych iawn yw'r alarch dof yn Rhondda Cynon Taf. Nododd David, yn ogystal â hyn, fod olion clefyd y trichomonosis yn dal ar rai o'r **llinosiaid gwyrdd yn ei ardd o hyd. Ym mis Tachwedd, fe welodd Ben Williams ddau fras y cyrs** yn ei ardd yn Nhon-teg. Dyma arwydd fod rhyw fod o aeaf ar ein gwarthaf, fodd bynnag. Ond nid oes amau p'un o holl adar Rhondda Cynon Taf oedd y prinnaf yn 2015. Gwelwyd **gwylan**

**goesddu** ar lan Afon Taf ger y Bont Wen, Pontypridd. Daeth hyn ar ôl nifer o ddyddiau o'r tywydd mwyaf gwyllt. Roedd yr wylan goesddu hon fel petai wedi'i llongddryllio, a'i gadael ymhell o'r môr agored.

Dyma grynodeb a wnaeth Lyn Evans tua diwedd yr haf o'i gofnodion ar gyfer ei fwydwyr gardd gefn a'r ardal leol, Glyncornel; '*Profiad gwych oedd gweld niferoedd y llinosiaid gwyrddion wrth y bwydwyr yn cynyddu. Yn sgîl y clefydau a fu'n broblem iddynt yn ddiweddar, fe ymddengys eu bod ar gynnydd eto, gyda hyd at bump unigolyn yn bresennol ar un tro. Ymddengys fod poblogaeth leol **cochion y berllan** yn cynyddu hefyd. Ymddangosodd dau gyw newydd fagu plu yn ddiweddar, yng nghwmni'u rhieni. Profiad da arall oedd gweld dwy **linos bengoch**. Gwryw llawndwf oedd y naill, a chyw oedd y llall a barnu yn ôl ei blu - neu'i ddiffyg plu. Maent wedi ymddangos yn eithaf rheolaidd dros yr wythnos ddiwethaf, yn ogystal â'r **pilaod gwyrddion** a'r nicos rheolaidd. Eithaf bach oedd niferoedd yr adar hyn, er bod cyfrifiad y nicos yn codi'n syfrdanol yn ystod cyfnodau oerach misoedd ein gaeaf. Bydd 25 neu fwy i'w gweld yn ciwio yn y pren ceirios ym mhen ucha'r ardd. Gan fod niferoedd digonol o adar yn bresennol yno yn rheolaidd, mae'n anochel y byddant ar brydiau yn denu'r **gwalch glas** lleol o dro i dro. Er hyn ni fu'r gwalch yno mor aml dros y chwech wythnos ddiwethaf. Gan fod cymaint o gywion newydd fagu plu i'w cael ar hyd lle, rwy'n cymryd nad oes raid i'r gwalch glas straffaglu draw fan hyn. Daw eto haul ar fryn, ys dywed yr hen air, ac wrth i fisoedd yr hydref a'r gaeaf agosáu. bydd y niferoedd sy'n ymweld â'r ardd yn cynyddu'.*

Gyrrodd Mark Evans ei grynodebau o heidiau **clwydfan.** Dyma'r ddisgrifiad: '*Dechreuodd yr haid glwydfan gyda niferoedd uchel i ac ar gyfer cyfnod y gaeaf. Daeth cyfrifiadau ail uchaf yr haid glwydfan ym mis Mehefin a mis Gorffennaf, ond disgyn yn gynt nag arfer mae'r cyfrifiadau oddi ar hynny, gyd nifer eithaf di-nod yno ar hyn o bryd. Rwy'n barnu ar sail y cyfartaleddau (sy'n debygol o roi canllaw bras iawn ar ei orau, oherwydd cyfrifiadau a gollwyd mewn blynyddoedd blaenorol), i 2015 fod yn flwyddyn dda ar gyfer y glwydfan/nythfa.*

*Fel sy'n arferol gyda chyfrifiadau brain, daw hanner yr hwyl o'r rhywogaethau eraill a glywir ac a welir yno. Yn ystod misoedd yr haf, yr adar cyntaf i'w clywed yn canu bob amser yw **clochdar y cerrig,** ac wedyn y **dryw**, y **robin goch** , ac, wrth gwrs, yr **ehedydd**. Y llinosiaid fydd yr olaf gan amlaf. Clywais ddau **droelliwr bach** yn tiwnio gwpl o weithiau, a byddaf yn eu croesawu bob tro.*

*Rwy'n lled amau fod rhywfaint o fynd-a-dod ar ran y cigfrain yn ystod yr wythnosau agosaf at Alban Hefin. Yn ystod y nosweithiau byr, byddant yn teithio rhwng y glwydfan/nythfa a Thip Bryn Pica. Beth oedd nifer yr adar yn mynd a dod? Oedd hi'n effeithio yn sylweddol ar fy nghyfrifon? Nid oedd modd dweud.'*

### Adar Cors Llanharan a Choed y Brynna

Mae Tony Swann yn darparu a chyflenwi cofnodion ac adroddiadau rhagorol ac ardderchog o Warchodfeydd yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a Natur yng Nghoed y Brynna, Llanharan. Dyma'i nodiadau, wedi'u rhannu yn adroddiadau tymhorol;

*'<u>Gwanwyn</u> (cyfanswm nifer y rhywogaethau adar a welwyd ym mis Ebrill 44, mis Mai 45 a mis Mehefin 41)*
*Ail wythnos mis Ebrill y cychwynnodd yr adar mudol ar ddechrau'u prif cyrraedd. Gwelwyd y telorion penddu ar y 9fed. Y rhai gwrywaidd ddaeth yn gyntaf, fel arfer, gyda phedwar yn dechrau canu ar unwaith. Roedd 13eg yn wych, y tro cyntaf i mi weld **corhedydd y coed.** Eisteddai'r aderyn yn canu nerth ei lais ar frig coeden fawr*

*mewn cae cyfagos yr ochr draw i'r llinell neu lein reilffordd. Rwyf wedi'u gweld ychydig dros filltir i ffwrdd, ar safle gyfagos Llanilid, ond dyma'r tro cyntaf i mi'u gweld yma.*
*Ar 20fed Ebrill, aeth **llwydfron gyffredin** drwodd ar ei ffordd, ac ar y 24ain daeth **gwennol y glennydd** heibio hefyd.*

*Bu cyfle ym mis Mai i groesawu dychweliad **teloriaid yr ardd**. Rydym ni wedi adnabod tair tiriogaeth, ynghyd â nifer dda o wenoliaid duon cyffredin. Fel arfer, mae gan un ohonynt ei nyth ym margodion y bondo uwchben fy swyddfa. Cyn bo hir, bydd f'oriau wedi'u llenwi â sŵn cyw yn crafu, a'i rieni yn dychwelyd â bwyd iddo. Yr uchafbwynt ym mis Mai oedd **hebog yr ehedydd** ar ei ffordd drwodd tuag at Lanilid. Bu dau hebog yr ehedydd o leiaf yn bresennol, yn bwydo ar wenoliaid y bondo yn yr ardal honno (Dyma fi eto yn gweld rhywbeth am y tro cyntaf yng Nghoed y Brynna!) Bu'r gwanwyn a dechrau'r haf yn brysur iawn. Cawsom arolygon o dan Arolwg Adar sy'n Nythu ac Arolwg Adar sy'n Bridio ar Ddyfrffyrdd, ac mae tri arolwg gwenoliaid y bondo yn parhau ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Adareg Brydeinig'*. Gofynnodd Tony '*A fyddai modd canu clodydd arolygon gwenoliaid y bondo'r Ymddiriedolaeth Adareg Brydeinig? Mae'u gwefan yn meddu ar fanylion rhaglen y flwyddyn nesaf. Bydd hon yn dangos arolygon o nythod gwenoliaid y bondo, gwaith a fydd yn ymarferol bosibl i rai pobl yn eu gerddi cefn. Dyma'r cyswllt gwe :-*
*http://www.bto.org/volunteer-surveys/house-martin-survey/house-martin-nest-study-2016.*

*Llwyddodd llawer o rywogaeth i nythu/magu yn ystod mis Mai a mis Mehefin, gyda chywion pluog niferus yn bresennol. Er mor galed oedd aeron yr eiddew cyn hyn, ar ôl dechrau mis Mehefin roeddent yn dechrau meddalu. O ganlyniad i hyn bu heidiau o'r **mwyeilch** lleol wrthi yn bwydo. Ymunodd y **bronfreithod** yn y sesiynau gwyllt, gyda'r aeron yn parhau ryw bythefnos. Dychwelodd dau lo gwartheg Ucheldiroedd i'r gors tua chanol mis Mehefin. Cyn bo hir, llwyddodd un i gyrraedd ochr draw'r ffensys, a chael blas ar fwydo ar ochr anghywir y ffens. Safai'r llo arall yno yn gwylio yn astud - yn gywir fel plant!*

*Dychwelyd wnaeth y barcud coch unwaith eto yn ôl yr arfer, gydag un aderyn o leiaf uwchben Llanharan bob dydd. Erbyn diwedd mis Mehefin, roedd y coedydd a choedwigoedd yn dechrau tawelu. Roedd llai o weithgarwch nythu/magu, a rhai o'r adar yn dechrau bwrw'u plu ar gyfer yr haf. Gwelais **jac-dos** heb brin ddim plu cynffon yn dod yn fwy cyffredin. Ymhlith yr aderyn mudol gwrywaidd fu'n canu roedd **siff-siaffod**, **telorion yr helyg**, a thelorion penddu, er bod y niferoedd yn llai nag ym mis Ebrill neu Fai.*

*Ac eithrio'r rhai yn yr adroddiad, ni welais **aranau cyffredin**, er fy mod yn byw mewn gobaith. Maen bosibl taw'r pâr crwydrol y cyfeirir atynt* (Cylchlythyr y Cofnodwyr 34) yw'r ddau aderyn sydd wedi treulio nifer o wythnosau yn ardal Allteuryn, ac sy'n dychwelyd bob nos i warchodfa Allteuryn. Ar hyn o bryd, ni fyddant yn dychwelyd tan 21:00, ac maent yn ymadael yn gynnar yn y bore. Mae hyn yn awgrymu eu bod wedi cael hyd i ddigon o fwyd ar ddolydd yr ardal, ac nad oes angen iddynt symud ymlaen. Mae'r rhain yn debygol iawn o fod yn adar wedi'u magu yng nghanolfan gwlyptir Slimbridge, yn hytrach na phâr crwydrol wedi hedfan draw o ogledd Norfolk.

*Haf (cyfanswm nifer y rhywogaethau adar a welwyd ym mis Gorffennaf 33, ym mis Awst 38 ac ym mis Medi 27).*

Roedd mis *Gorffennaf yn fan cychwyn y cyfnod tawel ar ôl nythu/magu, ond roedd yr uchafbwyntiau yn cynnwys cog ymfudol ar fore'r 18fed. Rywbryd cyn 2002 oedd y tro diwethaf i mi weld un. Gwelwyd llwydfronnau a thelorion yr helyg o dro i dro drwy'r mis. Rhaid fod yr adar hyn yn gwasgaru ar ôl magu a bridio. Synnaf o hyd mor anodd yw dod o hyd i* ***ddrywod eurben***, ***titwod pendduut a llwydiaid y gwrych*** *ar ôl iddynt fagu a bridio.*
*Dilyn yr un trywydd a wnaeth mis Awst, ac nid oedd y golfanod llai wedi bwrw eu plu i gyd tan ddiwedd y mis. Y pryd hwnnw y dechreuodd yr adar hyn alw eto. Yr uchafbwynt i mi ym mis Awst oedd gweld barcud coch ar ei ben ei hun. Yn anaml iawn y bydd yr aderyn hwn i'w weld yn yr ardal hon, er bod digon ohonynt i'w gweld mewn ardaloedd eraill. Eithriadol oedd gweld pâr o gnocellau gwyrddion yng Nghoed y Brynna, gan na chofnodwyd y rhywogaeth yno ers 2012. Nodwyd haid gyntaf titwod yr hydref eleni yn ystod wythnos olaf y mis.*
*Diflannodd y teloriaid yno yn gyfan gwbl ym mis Medi, ac eithrio ychydig siff-siaffod. Yr uchafbwyntiau i fi oedd pâr o* ***bilaod gwyrddion*** *yn hedfan uwchben,* ***siglen fraith*** *hefyd - aderyn sydd ddim yn mynychu'r safle hon). Un gwybedog mannog ar ei ben ei hun ar y 15fed.*

*<u>Yr hydref</u> (cyfanswm nifer y rhywogaethau adar a welwyd ym mis Hydref 30, mis Tachwedd 32 a mis Rhagfyr 38)*
Ar *3ydd Hydref y gwelwyd* ***siglen lwyd*** *am y tro cyntaf y gaeaf hwn, ac hefyd y grŵp gaeaf cyntaf o fronfreithod a brychod (pum brych y coed). Ar 22ainneu 23ain Tachwedd y gwelwyd y rhew go iawn cyntaf. Yna, fel hud, yn ystod y nos fe gyrhaeddodd* ***cochion dan adain.*** *Roeddent yn bwydo mewn cae cyfagos y bore trannoeth. Aeron coch oedd eu dewis hwy, a'r mwyeilch yn dal i fwydo ar y ddaear o hyd. Daeth un brych y coed ar ei ben ei hun i ymuno, ond methai benderfynu rhwng aeron neu fwydod/pryfed genwair! Ar 8fed Rhagfyr, bu dau* ***fwncath*** *yn hedfan mewn cylchoedd gyda'i gilydd am ychydig. Buont yn chwarae dod â bwyd i'w gilydd o dro i dro, cyn i un hedfan i ffwrdd. Ddim yn ffansio'i gilydd o gwbl? Yn fodlon aros tan y gwanwyn? 20fed Rhagfyr, a dyma saib o'r dyddiau glaw diddiwedd, a thair llinos bengoch leiaf yn bwydo ar y gwern ym mhen dwyreiniol y safle. (Dim ond yn y gaeaf y bydd y rhywogaeth hon i'w gweld ar y safle yma.) 28ain Rhagfyr: mae'n dal yn fwynaidd, ond wedi codi mae nifer y cochion dan adain, a gwelais grŵp o 14 heddiw - ond dim* ***socanod eira***.
*Chwarter cymharol dawel oedd hwn ond roedd y flwyddyn gyfan, yn gyffredinol, yn rhoi boddhad mawr. Dyma'r flwyddyn gyntaf i mi roi cynnig ar yr HER CLYTWAITH ar gyfer y Warchodfa. Roeddwn i wrth fy modd gyda chyfanswm o 64 o rywogaethau. Dyma fy mlwyddyn orau erioed. Ond mae un cwestiwn yn aros. A lwyddais i yn sgîl yr holl sylw ychwanegol am fynd ar ôl y rhywogaethau a'r pwyntiau ar gyfer yr Her, neu oherwydd y manteision o waith yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a Natur - neu'r ddau?*
*Hwyrach y bydd hi'n gliriach ar ôl rhoi cynnig arall arni yn 2016 - neu efallai dim!'*

***Achub ein Gwenoliaid Duon***
Mae Clwb Adar Morgannwg am wneud rhywbeth penodol iawn, ac yn bositif a ffafriol iawn, dros ein gwenoliaid duon. Fel yr esboniodd Alan Rosney, '*Adar hynod ryfeddol yw gwenoliaid duon. Hwy yw'n adar cyflymaf wrth hedfan yn lefel. (Bydd hebogiaid tramor yn gyflymach wrth blymio ar eu hysglyfaeth). Maent yn treulio'r tair neu bedair mlynedd gyntaf yn yr awyr, heb lanio unwaith. Maent yn bwyta, cysgu a pharu yn yr awyr. Ryw bum mlynedd maent yn byw ar gyfartaledd, ond fe gafodd un wennol ddu*

*ei chofnodi wedi byw yn 18 oed. Amcangyfrifir ei bod wedi hedfan dros 4miliwn o filltiroedd yn ystod ei bywyd.*

*Serch hynny, y mae'r gwenoliaid duon mewn trafferth. Yn ôl yr arolygon, mae poblogaeth gwenoliaid duon yng ngwledydd Prydain wedi haneru dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Y gwir amdani yw eu bod ar y Rhestr Oren bellach. Bu llawer iawn o ymchwil i'r rhesymau am y dirywiad hwn. Ymddengys fod rhywogaethau eraill wedi dioddef o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Ond fe ymddengys nad yw hyn yn ffactor mewn perthynas â'r dirywiad yn niferoedd y gwenoliaid duon. Yn ystod wythnos gyntaf mis Mai y byddant yn cyrraedd fel arfer. Ni newidiodd hyn, ac ni newidiodd cynefin eu tiroedd gaeafu ryw lawer chwaith. A yw diffyg mannau nythu yn un o'r ffactorau? Mae llawer o fannau nythu traddodiadol, megis hen gapeli ac ysgolion, ayyb, wedi cael eu dymchwel neu'u hadnewyddu. Collwyd mannau nythu o ganlyniad i hyn.*

*Mae Clwb Adar Morgannwg, ar y cyd â mudiad Gwarchod Gwenoliaid Duon, yn gwennol ddu i geisio lleihau'r dirywiad hwn drwy adeiladu blychau nyth. Nid yw gwenoliaid duon yn cymryd at flychau yn rhwydd iawn. Dyna'r brif broblem. Byddant yn nythu mewn cytrefi llac, ac maent yn fwy tebygol o ddefnyddio blychau sy'n agosach at fannau nythu sy'n bodoli. Cynhaliwyd arbrofion drwy chwarae galwadau gwenoliaid duon er mwyn denu adar i flychau nyth. Bu hyn yn weddol lwyddiannus. Bydd angen i ni wybod lle mae gwenoliaid duon yn nythu. Dyna pam rydym ni angen eich cymorth. Rydym ni'n gobeithio denu nifer o 'Hyrwyddwyr Gwenoliaid Duon'. Gwaith y rhain fydd arolygu'u hardaloedd lleol a darganfod ble yn union mae'r gwenoliaid duon yn nythu. Mae'r gwaith hwn yn llawer mwy anodd nag a fyddai rhywun yn ei feddwl. Serch hynny, y mae modd i ni gynorthwyo gyda dulliau o arolygu. A chofiwch roi'r gair ar led, a dweud wrth eich cymdogion am yr adar gwych ac anhygoel hyn. Dylech eu hannog i adeiladu blychau nythu o dan fargodion eu bondo. A wyddoch chi am unrhyw adeilad sy'n cael ei adnewyddu, a lle mae gwenoliaid duon wedi nythu? Beth am annog y datblygwyr i ymgorffori briciau cau neu flychau i wenoliaid duon fel rhan o'u cynlluniau?*

*Ydych chi yn gallu helpu? Croeso i chi gysylltu â ni. Alan Rosney alanrosney@gmail.com*

**Adroddiad Caeau Tirffownder Rhagfyr 2015**

Mae James Burton wedi gyrru crynodeb gwych o Gaeau Tirffownder. Gwlyptir hyfryd yw hwn, yng nghalon Cwm Cynon. *"Bydd y flwyddyn ar Gaeau Tirffownder, Cwm-bach, yn dechrau fel arfer gyda llifogydd mawr. Yr un oedd yr hanes eleni. Dyna fi felly yn neidio dros glystyrau mawr o dyfrllys pydredig i wylio pedair hwyaden ddanheddog, 25 o* ***gorhwyaid****, a haid o 12* ***coch y berllan*** *newynog. a'r un nifer o* ***Ditwod cynffon hir****. Bu'r* ***titwod yr helyg*** *preswyl arferol yn galw ers yn trosglwyddo tan fis Ebrill. Cwbl annisgwyl oedd gweld* ***siff-siaff*** *ar ei ffordd drwodd.*

*A minnau'n cadw fy llygaid yn agored ar gyfer adar mudol y gwanwyn ar 10fed Mawrth, cefais fy synnu'n fawr pan ymddangosodd wyneb bach blewog o'r tu ôl i wal ar bont Aberaman. Roedd y* ***fronwen*** *ifanc hon i'w gweld yn nerfus iawn, yn dymuno croesi'r ffordd ond heb fod yn rhy awyddus wrth i 'gawr' a chanddo gamera fideo eistedd yno yn rhythu arno. Rwyf wedi gosod y fideo hwn, gyda'r holl fywyd gwyllt o Gwm-bach, ar fy sianel Youtube. Mae modd gweld hon drwy http://www.spookspring.com/Tirfounder/TirFounderFields.html*

*Dyma'r adar mudol a gyrhaeddodd yn y gwanwyn: 14eg Mawrth siff-siaff,* ***,*** *6ed Ebrill telor yr helyg****,*** *10fed Ebrill telor penddu 16eg Ebrill* ***telor yr hesg****, 17eg Ebrill telor y cyrs, 19eg Ebrill gwennol a llwydfron, 23ain Ebrill gwennol y glennydd a thelor yr ardd a 4ydd Mai, gwennol y bondo.*

*Erbyn diwedd mis Gorffennaf roedd holl hen stêjars rhestr yr adar mudol wedi cyrraedd, canu, bwydo, nythu/magu ac ymadael. Fel arfer, mae hyn yn fy ngadael i yn troi fy mysedd, ond mae diddordeb mawr i'w gael mewn gleision y dorlan****,*** *bronwennod y dŵr, heidiau o bilaod gwyrddion* ***gwyachod bach****, breision y cyrs,* ***rhegennod dŵr,*** *cnocellau brith mwyaf a* ***gweilch gleision*** *ar eu ffordd drwodd. Mae'r rhain i gyd yn magu ar y safle neu yn agos iddo. Llwyddodd y* ***gwyddau gwyllt*** *hefyd i fagu eleni, gyda saith o rai ifanc rhyngddynt. Ymddengys fod pob un wedi goroesi, a chael eu gyrru wedi i Barc Tref Aberdâr i ymuno â'r gwyddau* ***Aifft, Canada,*** *a* ***Tsieina.***

*Mynd i'm plu fyddaf i ym mis Medi, heb ddisgwyl i ddim byd anghyffredin ddod i'r fei, yn enwedig mewn misoedd o dywydd cymylog a thrwm. Ond camgymeriad fyddai gorffwys ar y rhwyfau ym myd Natur. Yn goron ar flwyddyn arall o waith adaregol, dyna fi yn gweld* ***telor Cetti*** *yn cyrraedd y safle ar 29ain Medi, a finnau ar y ffordd i'r siopau! Bu hyn yn achos cryn gyffro ymhlith yr adaregwyr lleol. Rhyw amau ydym ni iddynt gael eu swyno gan gri bythgofiadwy yr adar hyn yn crychleisio o'r brwyni. Gwryw aeddfed yw hwn, mae'n debyg, wedi dod i fyny naill o grŵp arfordirol Abertawe. neu'r un yng Nghaerdydd. Gan iddynt ffynnu yno, a chan fod y tywydd yn dod yn gynhesach, maent yn ehangu i diriogaethau newydd. Fe'i clywais yn galw ar y 16eg o Ragfyr. Gan hynny, mi gredaf, os na fydd y tywydd yn torri, fe allai'r aderyn hwn droi i breswylio yma yn barhaol, ac, o bosibl, i nythu.*

*Oddi ar y safle, draw ar Byllau Dŵr Phurnacite, roedd dau alarch wedi paru a llwyddo i fagu dau gyw. Ond diwedd trist a fu i'r gân hon, gan fod y gwryw wedi hedfan i mewn i linellau pŵer trydan. Ffoes y fam a'r cywion o'r lle, yn ôl i'w perchennog yn Windsor, debyg iawn. Roeddwn i wrth fy modd yn dod ar draws* ***gylfingroes*** *ger y Llyn Fawr yn agos i'r Hirwaun. Ond cefais fy syfrdanu pan ehedodd 12 ohonynt heibio yn y coed ger hen westy'r Baverstock ym mis Medi. Un arall o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd sylwi ar dri chorhedydd y coed, dau d****ingoch,*** *dau grec yr eithin****,*** *a dwy* ***dinwen y garn*** *o fewn ychydig lathenni i'w gilydd yn agos i Gefn y Gyngon ym Mharc Gwledig Cwm Dâr ar 16eg Mai. Mae hyn i gyd yn rhoi i mi'r boddhad o wybod fod tiroedd gwastraff a diffaith Aberdâr yn dal i syfrdanu o hyd.*

**Amffibiaid ac Ymlusgiaid**
Roedd Barbara Castle yn llygad ei lle wrth grynhoi mor fachog statws iach yr amffibiaid yn ei gardd gyda'r geiriau ***'clod a bri*** *bro'r brogaod'*. Ym mis Gorffennaf, fe welodd Sue a Fiona Wistow **wiber** ar Gomin Llantrisant, a hwythau yn chwilio am **ceinioglys Cernyw** (***Sibthorpia europea***)

Mae Mark Barber wedi gyrru ymlaen atom yr alwad ganlynol am gymorth gan yr Ymddiriedolaeth Gwarchod a Chadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid (GChAY), sydd '*angen rhagor o bobl i gymryd rhan yn ein cynllun monitro - Cynllun Cofnodi Cenedlaethol Amffibiaid ac Ymlusgiaid (CCCAY) - yn hanner deheuol Cymru. Oes diddordeb gennych chi? Darllenwch ymlaen!*

*Croeso i chi fonitro ymlusgiaid, neu amffibiaid, neu'r ddau. Mae Cam 1 yn golygu, dewis sgwâr 1 km yn agos i'ch cod post. Bydd yn wych os oes modd i chi wneud hyn, ond fe all fod yn dalcen caled. Rhaid i chi gael caniatâd y tirfeddiannwr, i ddechrau. Weithiau, ni fydd y sgwâr yn addas - ac mae'n bosibl na fydd dim creaduriaid yno! Os yw hyn yn cyd-fynd â'ch anghenion chi, croeso i chi roi'ch enw i lawr. Casglu gwybodaeth bwysig yw gwaith Cam 1.*

*Bydd Cam 2 yn golygu dewis safle lle mae poblogaeth hysbys o ymlusgiaid, neu bwll dŵr lle mae poblogaeth hysbys o amffibiaid. Gallai sawl lle wneud y tro - eich gardd, y parc lleol, gwarchodfa natur, tir comin, fferm, ayyb. Byddwch chi'n dal angen cael caniatâd y tirfeddiannwr, ond fe ddylai hyn fod yn haws os ydych chi'n adnabod y safle, y staff, neu'r ffermwr.*

*Hoffech chi gymryd rhan mewn monitro amffibiaid. Bydd raid i chi ymgymryd â gwneud pedwar arolwg, o fis Mawrth i fis Mai. Ystyriwch osod dyddiadau dros dro sy'n ddibynnol ar y tywydd yn eich dyddiadur. Un arolwg ym mis Mawrth (os yw'n ddigon cynnes), dau ym mis Ebrill, ac un ym mis Mai. (Byddwn i'n cynghori defnyddio tors gyda'r nos ym misoedd Mawrth, Ebrill, a Mai.) Byddai'n werth gwneud un ymweliad yn ystod y dydd i chwilio am wyau madfallod dŵr ym mis Ebrill. Os nad oes tors gyda chi, gall Gwarchod a Chadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid roi benthyg un i chi. Mae Gwarchod a Chadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid yn arbennig o frwd ynghylch monitro pyllau dŵr a llynwenni madfallod dŵr cribog/*

*Yr un yw'r hanes o ran monitro ymlusgiaid, lle cafwyd pedwar arolwg. Y mae modd gwneud arolwg safle heb ddefnyddio dalennau to fel llochesi, ond mae hyn yn fwy o hêr/ Bydd angen i chi fod yn wyliwr profiadol, a bydd gofyn am dywydd perffaith. Ar y rhan fwyaf o safleoedd, dylid gosod 30 o leiaf o lochesi o fewn y sgwâr 1km. Os nad oes llochesi gyda chi, gall yr Ymddiriedolaeth Gwarchod a Chadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid roi benthyg rhai i chi, a/neu gynorthwyo a helpu i'w gosod. Bydd angen amser i'r llochesi sadio i fod yn barod ar gyfer y Gwanwyn. Yn ddelfrydol, felly, dylent fod allan erbyn canol Chwefror. Dyma ychydig yn rhagor o ddyddiadau i'ch dyddiadur. Bydd un tua diwedd Mawrth, Ebrill, a Mai, ar unrhyw adeg o fis Mehefin i fis Medi.*

*Ydych chi'n teimlo eich bod angen hyfforddiant neu fentora? Croeso i chi gysylltu â fi. Cewch bopeth rydych chi'i angen ar [http://narrs.org.uk/](http://narrs.org.uk/) - cofiwch gofrestru cyn y Gwanwyn. Os byddwch chi angen unrhyw gymorth, croeso i chi gysylltu â fi.'*

Mae llawer ohonom yn meddu ar byllau dŵr yn ein gerddi, a / neu yn byw ar bwys cynefin rhagorol ac arbennig i ymlusgiad. Y tebyg yw, felly, y gallem ni ragori gyda'r prosiect hwn.

**Planhigion**

Nid creaduriaid sydd â choesau, esgyll, ac adenydd yw'r unig bethau byw sy'n gallu gwasgaru mewn modd ddeinamig. Gall newidiadau yn nosbarthiad planhigion fod yn rhyfeddol a syfrdanol o gyflym. Mae Paul Marshman yn cadw llygad ar ei ddarn o dir yn Llwynypïa ers sbel o amser bellach. Dyna'r cefndir lle gwelodd ef amrywiadau ac anghysondebau newid botanegol. Nododd Paul yn benodol sut mae nifer o rywogaethau tir gwastraff wedi ymledu, er y caent eu hystyried fel arfer yn rhywogaethau i'r Dwyrain neu'r arfordir. Dyna fe yn sôn felly am weld **hocysen** a rhyw blanhigyn tal â blodau croesffurf (a lwyddom ni i gytuno ai **mwstard du** ydoedd?) wedi goresgyn Llwynypïa yn ddiweddar. Nododd hefyd fod **pannas gwyllt**

wedi brigo i'r wyneb i fyny ar Ffordd Glynrhedynog y mis Awst yma, a bod **amrhydlwyd Canada** yn ymsefydlu yno bellach. Gweithgarwch a gweithgaredd dynol, medden nhw, yw'r mwyaf grymus o'r fectorau cludo. Dyna sy'n peri i'r pethau hyn ymledu. Cofnododd Paul **flodau mwnci** hefyd, mewn lleiniau gwlyb. (Brodor o Ogledd America yw hwn.) Nododd hefyd mor dda oedd blodau hardd **gwlydd-Mair y gors** yn ffynnu yn 2015. Gwelodd ddarnau ohono yn ymledu dros y tir lled-ddiferol ac yntau yn cerdded llechweddau'r Rhondda.

Cofnododd Mark Evans ymhell dros gant o **degeirianau bera** yn blodeuo ym mhlanhigfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru Bryn Du, yn agos i hen westy Baverstock. Ond fe nododd hefyd fod peiriannau trwm wedi gyrru dros yr ardal unwaith eto. Gwelodd Margaret dair **tegeirian y wenynen** yng Nglofa'r Cwm ym mis Mehefin. Rhoes Nia Honybun adroddiad o degeirianau'r wenynen a llawer o degeirianau brych ger y fynedfa i Barc Busnes Tonysguboriau. Gwelodd Jeff Williams degeirianau'r wenynen yn y Rhondda, a rhoes Martin Bell adroddiad o ragor ohonynt o Barc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon "*dau neu dri o sbigynnau yno ddwy flynedd yn ôl, 23 o sbigynnau y llynedd, a 54 ar Ddydd Gwener, 19eg Mehefin*. Yn anffodus, cawsom adroddiad diweddarach gan Martin yn sôn fod y tegeirianau wedi cael eu medi. (Serch hynny, ni ddylai hyn eu hatal rhag brigo i'r wyneb eto y flwyddyn nesaf.) Roeddwn i'n falch i weld fod Adran Parciau Cyngor Rhondda Cynon Taf yn gadael rhai yn y lleiniau ymyl ffordd blodau gwyllt ym Meisgyn, ar y cyd â channoedd o degeirianau brych. Mae Paul Marshman a Paul Denning ill dau wedi rhoi gwybod nad oedd ond ychydig o **beniganau'r porfeydd** yn blodeuo yng Nghwm Clydach. Ymwelais innau â'r safle yn ddiweddarach, ac mae'r silffoedd/ysgafellau wedi gordyfu'n wyllt. Rhaid i ni reoli silffoedd/ysgafellau'r chwarel er mwyn sicrhau fod mwy o hadau yn cael eu gosod yn hafau'r dyfodol. Rhaid i mi wneud rhywbeth am hyn.

Mae Margaret Harding wedi cadw llygad ar y cytref o **leision y gaeaf deilgrwn** ar Domen Glofa'r Cwm. Gyrrodd hi gyfred o luniau ataf yn dangos y planhigion yn dechrau blodeuo. Roedd rhyw ddwsin yn bresennol. Yn y cyfamser, cafodd Mark Evans a Martin Bevan hyd i gytref mawr o **leision y gaeaf bach (*Pyrola minor*)** ger ffatri Pirelli Cables rhwng Tresalem a Llwydcoed. Dyma ddisgrifiad Mark '*Mae'r safle ar wastraff glo lludw coch, gyda llawer o lystyfiant. gyda phrysgwydd helyg deilgrwn, bedw, a gwern. O dan y prysgwydd hwn mae'r rhan fwyaf o'r Pyrola yn tyfu, yn clwstro mewn grwpiau o wahanol feintiau. Mae'r mwyafrif yn tyfu yng nghysgod brith yr helyg deilgrwn, gyda lleiniau ar wasgar (weithiau o dan straen) yn y mannau mwy agored.* Yn ôl 'The Flora of Glamorgan' ym 1994, roedd glesyn y gaeaf bach '*yn brin iawn, o bosibl wedi diflannu'*. Roedd glesyn y gaeaf deilgrwn ' *yn gyffredin yn lleol ar dwyni tywod'* ac ar laciau twyni. Mewn blynyddoedd diweddar, mae'r ddwy rywogaeth hon o leision-y-gaeaf wedi dechrau dod yn dangosyddion gwastraff glofa pwysig. Drwy wneud hyn, maent wedi helpu i gadarnhau grym natur.

**Ffyngau**

Os dilynaf drywydd y cofnodion gleision-y-gaeaf, neu'r rhywogaethau Pyrola, deuaf yn llithrig a di-dor at stori dditectif Mark Steer am leision-y-gaeaf - ac mae'r ffyngau yn rhoi rhyw dro bach arbennig yn ei chynffon!

*Mi fûm allan yr haf hwn yn chwilio am lesyn y gaeaf deilgrwn (Pyrola rotundifolia subsp. maritime) yn Is-sir 41 Morgannwg, fel rhan un o brosiect 'Lost & Found Fungi' Gerddi Kew: [http://fungi.myspecies.info/content/lost-found-fungi-project](http://fungi.myspecies.info/content/lost-found-fungi-project). Bydd Brian*

*Douglas, o Erddi Botaneg Brenhinol Kew, yn rhoi cyflwyniad am y prosiect hwn yn Fforwm Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru ym mis Tachwedd.*

*Mae un o'r 100 o ffyngau uchaf ar y prosiect hwn yn digwydd ar y Pyrola yma - rhwd glesyn y gaeaf Chrysomyxa pyrolata. Prin iawn fu'r adroddiadau o'r gawod goch hon o wledydd Prydain ac Iwerddon. Dim ond ddwywaith y gwelwyd Pyrola yn ddiweddar, un tro mewn llaciau twyni ger Southport yn Swydd Gaerhirfryn, ac un ger Barrow-in-Furness. Cafwyd hyd iddi ar Ynys Môn ym 1971 ac, yn hanesyddol, ar ychydig safleoedd yn yr Alban. Yn ôl adroddiadau, bydd un o gyfnodau'r gawod goch i'w gael ar rywogaethau Picea, ond byth yng ngwledydd Prydain ac Iwerddon.*

*Roedd yr ymdrechion yn canolbwyntio i gychwyn ar laciau twyni yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Whitffordd, Penrhyn Gŵyr, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Twyni Tywod Merthyr Mawr. a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig, lle mae cytrefi adnabyddus o'r Pyrola i'w cael. Er cael hyd i Pyrola rif y gwlith yn y lleoliadau hyn, nid oedd siw na miw o'r gawod goch!*

*Ac yna mi gefais wybod gan Richard Wistow, Ecolegydd Sirol Rhondda Cynon Taf, fod y Pyrola wedi ymsefydlu bellach ar domenni gwastraff glofeydd yn Rhondda Cynon Taf.*
*Mi fûm i yn ymweld ag ychydig o'r safleoedd hyn, gan gynnwys Glofa'r Cwm, y Beddau, Parc Gwledig Cwm Clydach, Gwarchodfa Natur Parc Slip, a safle glo brig Llanilid (dim ond un filltir yn unig o'm cartref i!). Llwyddais i gael hyd i'r Pyrola ar y safleoedd hyn ond, unwaith eto, nid oedd siw na miw o'r gawod goch. Roedd Llanilid i'w weld yn eithaf diddorol, gyda'r lleoliad a welais i ddechrau bellach yn safle castell 'canoloesol' fel rhan o set ffilmio! Serch hynny, roedd digonedd o'r Pyrola i'w cael ar yr ail leoliad yno.*

*Methais ymweld â nifer o leoliadau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys gwarchod Oxwich, Coed Pelena, a iardiau trefnu Cynffig. Gobeithiaf ymweld â'r rhain (ac ail-ymweld â'r lleoliadau sydd eisoes wedi cael arolwg) yn ystod 2016. Yn ogystal â hyn i gyd, buaswn i'n gwerthfawrogi gwybodaeth am leoliadau eraill y Pyrola yn Is-sir 41 Morgannwg. O ddewis mi garwn i gael cyfeiriadau grid 8-neu 10-ffigur - maent yn anodd iawn i'w gweld!*

*Mae'r Pyrola ar laciau twyni i'w weld yn tyfu yn agos i gorhelyg (Salix repens). Ar domenni gwastraff glofeydd, ar y llaw arall bydd i'w weld yn ffafrio mannau llaith yn llawn mwsogl, gydag ychydig helyg bach (o rywogaeth anhysbys) a bedw anhysbys.*
*Lleoliadau a archwiliwyd yn 2015.*
*Gwarchodfa Natur Genedlaethol Whitffordd, Penrhyn Gŵyr SN3903 0205, SN3913 0188, SN4347 9421, SN4348 9420 (gyda saith o leoliadau eraill)*
*Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig SS78841 82110 a SS78880 82036*
*Gwarchodfa Natur Genedlaethol Twyni Tywod Merthyr Mawr SS86447 82803*
*Gwarchodfa Natur Parc Slip SS87009 83529*
*Parc Gwledig Cwm Clydach SS9641 9269 a SS97940 92855*
*Glofa'r Cwm ST06531 86433 a ST06539 86427*
*Gwaith Glo Brig SS99708 82101, SS98988 816 26, SS98991 81606, SS99042 81602, SS99023 81617, SS99013 81619 a SS98986 81622*
*Hoffwn i ddiolch i bob un o'r rheiny i gyd sydd wedi rhoi i mi'r lleoliadau ar gyfer y Pyrola. Yn eu plith roedd Paul Denning, Margaret Samuel, David Barden, Grŵp Botaneg Morgannwg, Richard Wistow, Ecolegydd Sirol Rhondda Cynon Taf. Diolch*

*hefyd i Brian Douglas yn Ngerddi Kew am ei holl gymorth. (*Mark Steer, Grŵp Ffyngau Morgannwg
marksteer150@gmail.com)

Mae Mark Evans wedi dechrau ystyried ac archwilio'r microffyngau, '*Dros y ddwy flynedd ddiwethaf hyn, wrth chwilio drwy gilfachau tywyllaf dryslwyni helyg deilgrwn am* ***grawen las (Pulcherricium caeruleum [Terana caerulea]).*** *Weithiau mi ddeuthum ar draws fforestydd bychain o gyrff hadu du mân, mân, yn gorchuddio pren helyg deilgrwn marw. I'r llygaid noeth, maent i'w gweld yn debyg i ryw fath o sofl du cwrs. Mae pob corff hadol hyd at 2mm o daldra, ac o bosibl yn 0.50mm ar led. Os edrychwch drwy lens llaw, bydd siâp pob corff hadol yn debyg i gŷn neu fwyall. A dweud y gwir, gan fy mod yn ymddiddori yng ngwaith callestr y cynfyd coll, byddaf yn eu gweld yn debyg i bennau bwyaill bach caboledig yr Oes Garreg newydd.*

*Methais ddarganfod beth oedd hyn am sbel hir, er sawl ymgais ac er i mi brynu Beibl y microffyngau, 'Microfungi on Land Plants.' gan Pamela a Martin Ellis. Rhwystredigaeth fawr oedd y methiant hwn, ond ar Ddydd Calan mi ddigwyddais fod ym Mharc Gwledig Cwm Dâr, yn chwilio am adar. Prin iawn oedd yr adar i'w gweld yno. Dechreuais chwilio am ficroffyngau, i fynd â hwy adref. Gobeithiais eu hadnabod a'u nodi, er gwaethaf fy niffyg medrau. Meddyliais am y* ***'sofl helyg deilgrwn'*** *a phenderfynu cael sbesimen i'w archwilio o dan y microsgob. Dyma fi yn mynd i mewn i grŵp bach o helyg deilgrwn, chwilio ychydig, a bachu sbesimen neu ddwy. Un o fanteision potsian gyda microffyngau yw fod rhywun yn gwybod taw un o rywogaethau Ascomycetes sydd ganddi. Drwy fynd ar-lein, mi lwyddais i fireinio fy chwiliad yn lle gofyn ynghylch 'Microffyngau ar Helyg Deilgrwn' dechreuais chwilio am 'Ascomycetes ar Salix' - dyna fe yn union! Roedd llu o luniau ohono i'w gweld - ac, o'r diwedd, enw. Chwiliais drwy'r canlyniadau, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod hwy i gyd yn cyfeirio at yr un genws a rhywogaeth. Llwyddiant!* ***Glyphium elatum***. *Trois eto at gyfrol werthfawr 'Microfungi on Land Plants', a chael hyd iddo o dan wyddfid, o bopeth dan haul. Unwaith yn unig roedd yr awduron wedi cael hyd iddo - ar wyddfid yn Ynysoedd y Sianel. Er iddynt gydnabod i awduron eraill sôn am gael hyd iddo ar rywogaethau eraill o goed a llwyni. roeddent yn ei ystyried a'i gyfrif yn brin.*
*Ni wn ble maent yn byw, ond maent i'w gweld yn eithaf cyffredin yn y cyffiniau yma, yn enwedig ar ganghennau helyg deilgrwn llaith a marw. Mi gefais hid iddo ar* ***lwyfen lydandail,*** *farw yn Llwydcoed hefyd. Mae nifer o luniau stereo gwirioneddol dda ohono ar http://www.eboehm.com/glyphium.html*'.

Rwyf wedi cael gan Peter Sturgess restr o 14 o ffyngau cap cŵyr a welodd ef ym Mynwent Aberdâr. Dyma hwy: ***Hygrocybe calyptriformis, H. chlorophana, H. chlorophana var aurantiaca, coccinea, H. conica, H. flavipes, H. glutinipes, H. insipid, H. intermedia, H. pratensis var pallid, H. psittacina, H. punicea, H. quieta, H. reidii and H. virginea.*** Bûm yn gweithio gyda gwasanaethau Mynwentydd Rhondda Cynon Taf, Ben Williams, Gwarchod Glöynnod Byw Cymru., a Threfi Taclus. Eleni, mae rhai mannau ac ardaloedd o glaswelltir llawn blodau gwyllt wedi dechrau cael eu rheoli fel cynefin bywyd gwyllt. Safle ddiddorol ar y naw yw hon i ymweld â hi ac i'w chofnodi. Os ewch yno yn yr hydref, mynnwch edrych yn y mannau lawnt lle mae'r llystyfiant yn fyrrach. Cewch weld liwiau melyn, gwyn, oren, a choch y gwahanol gapiau cŵyr.

**Glöynnod a Gwyfynod**

Dal yn eithaf siomedig oedd tywydd yr haf, ond cawsom nifer o gofnodion da o löynnod. Mae'r **fritheg berlog fach** ymhlith y glöynnod mwyaf hardd, annwyl, diddorol, ac arbennig sydd gennym. Maent i'w gweld wedi gwneud yn o lew yn 2015. Gwelais nifer ohonynt mewn glaswelltir corsiog wrth ymyl ac ochr Comin Llantrisant ym mis Mehefin, ac un ar safle newydd mewn glaswelltir corsiog wrth ymyl ac ochr Mynwent Treorci ar y 18fed. Ar yr un diwrnod, gwelodd Paul Marshman un arall ychydig ymhellach i lawr y Rhondda, ar Lechwedd Llwynypïa. Rhoes adroddiad ar yr un diwrnod fod ffrind wedi gweld **britheg werdd** yn Ynys-hir. Ar y 25ain o Fehefin, mewn mawnog ar Fynydd Portref (yn uchel uwchlaw Llanharan) mi welais 10 neu'n fwy o frithegion perlog bach, ynghyd ac yn ogystal â **mantell goch**, **mantell dramor**, a **phicellwr du**. Yr un diwrnod, ar y llwybr hawl tramwy cyhoeddus ger Fferm Gelli'r-haidd uchaf mi wyliais nifer o **ymerawdwyr** a **mursennod** glas asur ar byllau dŵr a llynwenni bychain, gyda glöynnod y **gleision cyffredin**, **gweirlöynnod bach y waun**, a **gwibiwr mawr**. I lawr ar lwyfandir Parc Eirin, mi wyliais niferoedd mawr o löynnod y gleision cyffredin, **gweirlöynnod y glaw, gweirlöynnod y ddôl, a gwibwyr bach**, ynghyd â britheg berlog fach arall, a niferoedd mawr o wyfynod **ffacbys** yn hedfan.

Ymwelodd Ben Williams â'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn Rhos Tonyrefail ym mis Gorffennaf. Yn ogystal â chael hyd i dri gwe bychan larfâu britheg y gors yno, gwelodd '*niferoedd mawr o weirlöynnod y glaw ac o weirlöynnod y ddôl yn hedfan ar hyd y lle, gydag ychydig wibwyr bach a gwynion mawr, gydag un fritheg werdd'*. Bu Alan Rosney yn ddigon ffodus ym mis Gorffennaf i gael **brithribin Wen** yn ei ardd yn Nantgarw. Â chalon drom y rhoes Ben Williams wybod fod ei hoff lwyfen Ewropeaidd wedi ildio i glefyd llwyfen yr Iseldiroedd, yno ar lan yr afon yn Ystad Ddiwydiannol Trefforest. Un o berygl arferol bywyd i'n coed llwyfen lydandail ni yw clefyd llwyfen yr Iseldiroedd o hyd.

Cafodd Ade Meredith, yng nghwmni Paul Denning, hyd i lawer o **leision bach** yng Nglofa'r Cwm ar 4ydd Mehefin. Un o'n llwyddiannau yw'r gleision bach. Maent wedi dechrau mudo i ganol y wlad o'r twyni ac o glaswelltiroedd y clogwyni calchfaen ar hyd lannau Morgannwg er mwyn dechrau defnyddio glaswelltiroedd gwastraff glofa blodeuog Rhondda Cynon Taf. Plucen felen (planhigyn bwyd y larfâu) y maent eu hangen a digon o heulwen (fel ni i gyd, erbyn meddwl). Yn ogystal â hyn, nododd Paul fod Gary Welsby wedi ' *tynnu llun o **weirlöynnod cleisiog** ar laswelltiroedd Glofa'r Cwm'*, a bod hyn yn '*gofnod diddorol, gan fod y glaswelltiroedd yn gynefin perffaith iddyn ... Rwy'n siŵr eu bod yn magu rywle yn yr ardal'*. Os edrychwch chi ar fap o ddosbarthiad y gweirlöynnod cleisiog, fe welwch chi fwlch sy'n cyfateb yn fras i Ganol Morgannwg. Mae hyn yn cyfateb i Dde a Chanol Morgannwg. Glöynnod hardd yw gweirlöynnod cleisiog, tua'r un faint â gwynion mawr ond gyda phatrymau du a gwyn unigryw. Cadwch eich llygaid ar agor fis Gorffennaf nesaf.

Erbyn canol mis Gorffennaf, roedd Paul Marshman wedi gweld **britheg werdd** yng Nghwm Clydach. Nododd Paul hefyd fod **gweirlöynnod y perthi** bellach ymhlith y glöynnod mwyaf cyffredin yn Llwynypïa, er taw ym 1995 yr oeddent wedi cyrraedd o odre'r Cwm. Dyna dystiolaeth yn wir o'r ddeinameg naturiol ar waith. Mae amlder gweirlöynnod y glaw yn y Rhondda yn awgrymu taw'r un yw'r sefyllfa yno. Clywsom adlais o dywydd siomedig mis Awst yn sylwadau Margaret Harding nad oedd ond tair rhywogaeth yng nghyfrifiad glöynnod ei gardd hi: '*glöyn gwyn, mantell paun, a gweirlöyn brych*', fel y dywedai hi. '*Gallaf ddweud, a'm llaw ar fy nghalon, taw dyma fy nghyfrifiad haf gwaethaf erioed. Ond yr un fyddai'r canlyniad wedi bod, ni waeth ar*

*ba adeg'*. Ond mi gefais bleser anghyffredin ar 18fed Awst, yng nghwmni Mark Barber a Pete Hill, o Warchod a Chadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid, ar Gomin y Graig, Llantrisant, pan welsom fritheg werdd yn dodwy wyau ar fioledau. Tynnodd Pete nifer o luniau ardderchog, a'u gyrru i Warchod Glöynnod Byw Cymru. Dyma dystiolaeth o lwyddiant y gwaith rheoli a rheolaeth cynefinoedd a phorfa ar y Comin yno. Roeddwn i bron mor falch i weld dau **weirlöyn y clawdd** yn hedfan o gwmpas gweddillion melin wynt Billy Wynt ar gopa'r Graig. Roedd gweirlöynnod y clawdd yn löynnod digon cyffredin yn ystod fy ieuenctid (hyd ganol f'ugeiniau, a bod yn fanwl), ond wedyn daeth chwalfa poblogaeth. Bellach, mae'r glöynnod hardd hyn yn brin i'w rhyfeddu.

Roedd rhywogaethau mudol yr Haf i'w gweld yn anfynych eleni, er i Margaret Harding weld mantell dramor ym mis Mehefin. Fe welodd Paul Marshman **walchwyfyn hofran** tua diwedd mis Awst, ac mi welais i un yn fy ngardd ym Meisgyn. Llithrodd yr haf hwyr ymlaen i hydref hwyr, a dyma fy nghlystyrau oedrannus o flodau-Mihangel yn dal yn eu llawn flodau o hyd yng nghanol mis Hydref. Arnynt mi welais saith mantell goch, dau **fantell garpiog** ac ychydig **drilliwiau bach**, ac un **melyn y drain** gwrywaidd yn hedfan ar hyd le yn bwydo ar lygaid y dydd am nifer o ddyddiau neu ddiwrnodau. (Dyna brawf o hirhoedledd y planhigion, wedi lledaenu o ardd ym mwrdeistref Tottenham 90 o flynyddoedd yn ôl yn y 1920au.)

Cawsom ddiwrnod i'w gofio tua diwedd mis Awst pan gafodd Julian Woodman a Sue Westwood hyd i weoedd larfal brithegion y gors ar safle yn Llanilltud Faerdref. Bu croeso cynnes i'r glöyn hwn, ac yntau yn dychwelyd i gyrion deheuol Rhondda Cynon Taf. Galwodd Ben Williams hefyd, a chael hyd i ragor o weoedd yn ddiweddarach yn yr hydref. Parhaodd Ben â'i waith monitro hanfodol, hollbwysig, ac allweddol hefyd, ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Rhos Tonyrefail;
*'Roedd rhaid i mi ddianc o'r tŷ heddiw, ac felly dyma fi yn pico draw i Donyrefail. Am hyfryd! Roedd yr heulwen yn gwenu, ac nid oeddwn am ei gwastraffu. Roeddwn i eisiau cael pip agos. Euthum ati i chwilio am weoedd larfal, a chael hyd i* ***78*** *ohonynt ar un safle, sef y brif ardal glaswelltir agored sy'n cael ei llosgi bob blwyddyn gan amlaf. Roeddent ar wasgar digon eang, oedd yn gwneud y gweoedd yn ddigon anodd i'w darganfod. Mae'n debyg fy mod wedi colli rhai oherwydd yr holl leithder. Roedd y lindys yn fach iawn ar y cyfan, tua 2-3mm o hyd. A dyna i chi beth arall. Niferoedd bach iawn o lindys oedd arnynt. Ar un ohonynt, dim ond pump lindysen yn unig a gyfrifais i, ac ni chefais hyd i ragor yn agos. Dechreuais amau eu bod yn grŵp bach oedd wedi ymadael â gwe arall. Dyma'r nifer orau a gofiaf ers cryn amser, ac yn gynnydd o %100. Gobeithio y byddant yn dechrau ymledu ryw ychydig. Nid yw'r clafrllys yn blodeuo eto, ond mae blagur y blodau i'w gweld uwchben y llystyfiant arall. Aeth i ran arall o'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn nes ymlaen, a 'chael hyd i 23 o weoedd yn y cae hwnnw. (Dyma'r cae lle cawson hyd i bedair gwe larfal y llynedd am y tro cyntaf erioed.) Mae gan y buchod fynediad rhwydd i'r cae hwnnw, ac maent yn gwneud gwaith da yno. Y tro diwethaf i mi wneud arolwg cynefin yno, roedd cerdded drwy rannau o'r cae yn wirioneddol anodd. Ond mae'r da wedi cnoi'r cae yn glir, ac mae cerdded yn llawer rhwyddach. Rwy'n amau fod y clafrllys ar ei ennill hefyd. Roedd mwyafrif y gweoedd yng nghanol y cae. Roeddent yn llawer haws eu darganfod heddiw, gyda rhai o'r lindys mwy o faint yn bolaheulo yn yr awyr agored'.*

Dyma newyddion ardderchog i ni felly am hynt a helynt brithegion y gors. Daw yn wobr am yr oriau lu a dreuliodd Ben a Richard Smith, ac eraill, yn chwilio'n ddiwyd am weoedd bob hydref.

**Gwenyn a phethau eraill**
Roeddwn i'n falch iawn i weld **cacynen y mynydd *Bombus monticola*** (yn ddisgynnydd, mae'n rhaid, i'r gwenyn fu'n hedfan filoedd o flynyddoedd yn ôl dros lechweddau llusiog y Rhondda), a **chacynen y coed *Bombus hypnorum*** (sydd wedi cytrefu Ynys Prydain dros y ddegawd ddiwethaf hon) yn hedfan gyda'i gilydd ar draws cloddiau blodeuog wrth ymyl Mynwent Treorci ar 18fed Mehefin. Yn ogystal â hynny, mi welais **gardwenynen *Bombus humilis*** ar Gomin Llantrisant ar y 15fed. Gwelodd Liz Dean ddwy **bicwnen goch** yn ei gardd yn Nhrefforest tua diwedd mis Medi. Cofnododd Paul Denning **darianbryfed blewog** a **tharianbryfed y tafol** yng Nglofa'r Cwm ym mis Mehefin.

**Creaduriaid Di-asgwrn Cefn Gwastraff Glofa, gan Liam Olds**
Mae Liam Olds wedi treulio'r haf yn gwneud arolwg o gynefinoedd gwastraff glofa Rhondda Cynon Taf o ran diddordeb mewn creaduriaid di-asgwrn cefn. Bydd ef yn treulio'r gaeaf yn ddwfn yn archifau'r Amgueddfa Genedlaethol, yn adnabod y creaduriaid hyn. Ar hyn o bryd, mae ef ar Hyfforddeiaeth Talent Naturiol am un flwyddyn gydag YGC (Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth). Mae'i waith ef yn wirioneddol arloesol. Yn sgîl y gwaith hwn fe wyddom lawer iawn mwy nag o'r blaen am greaduriaid di-asgwrn cefn gwastraff glofa. Gobeithio taw dechrau yn unig yw hyn. Bu Liam mor garedig â darparu'r grynodeb rhagorol ganlynol. Mae hon yn teilyngu'i hatgynhyrchu yn gyfan. (NODER: cyhoeddwyd llyfr adnabod a nodi gwenyn Ynys Prydain yn ddiweddar, wedi'i ddylunio yn rhagorol ac yn llawn lluniau hardd. 'Field Guide to the Bees of Great Britain and Ireland', gan Steven Falk, yw'r llyfr, o gwmni British Wildlife).

*Mae tomenni a thipiau gwastraff glofa yn elfen eiconig yn nhirwedd Cymoedd y De. Byddant yn ein hatgoffa o hyd o'n treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog. Er bod tomenni gwastraff glofa yn rhan bwysig o'n hunaniaeth fel Hwntws, mae'n rhy hawdd i'w hanwybyddu ac i beidio â'u gwerthfawrogi. Dros y ddeuddeg mis diwethaf, bûm yn cynnal astudiaeth o'r creaduriaid di-asgwrn cefn sydd i'w cael ar domenni glofa. Diben hyn yw amlygu pwysigrwydd biolegol y safleoedd hyn, mewn ymgais i godi proffil cyhoeddus y cynefinoedd anhygoel hyn, sydd yn aml iawn dan fygythiad.*

*Mae degawdau o adael ac esgeuluso, yn dilyn cau ein glofeydd i raddau helaeth, wedi galluogi amrywiaeth eang o rywogaethau a chynefinoedd i gytrefu ein tomenni gwastraff. O ganlyniad i hyn, mae llawer ohonynt yn cynnal cynefinoedd a bywyd gwyllt o werth bioamrywiaeth lleol sylweddol. Er bod gennym ddealltwriaeth dda o'r fflora, a'r ffawna asgwrn cefn, sy'n gysylltiedig â'r cynefinoedd hyn, gwyddom lawer yn llai am greaduriaid di-asgwrn cefn sy'n defnyddio'r cynefinoedd hyn. Fel y dywedodd Richard Wistow yn ei gylchlythyr blaenorol, "Fe wyddom fod gwastraff glofa yn bwysig i löynnod, rhai gwyfynod, a chwilod teigr, ond ychydig a wyddom am grwpiau infertebratau a chreaduriaid di-asgwrn cefn eraill. Rwyf wedi ceisio mynd i'r afael ac ymdrin â'r mater hwn drwy gynnal a rhedeg nifer fawr o arolygon infertebratau a chreaduriaid di-asgwrn cefn ar safleoedd ym mhob rhan o Rondda Cynon Taf. Rwyf wedi gwneud y prosiect hwn fel rhan o'm hyfforddeiaeth entomoleg yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd. Er nad yw'r canlyniadau wedi'u cwblhau ar hyn o bryd), gobeithiaf y byddant yn pwysleisio pwysigrwydd tomenni*

*gwastraff glofa i lu o greaduriaid di-asgwrn cefn. Hwyrach y byddant yn gwneud i chi feddwl mewn ffordd neu fodd gwahanol am y safleoedd tir llwyd neu ddiffaith, fel y'u gelwir.*




***Chwith:*** *Bydd y glaswelltiroedd blodeuog trawiadol ar lawer domenni gwastraff yn gweithredu fel adnodd fforio a chwilio pwysig ar gyfer llawer o rywogaethau peillio. Mae'r rhain yn cynnwys gwenyn, glöynnod, gwyfynod, pryfed hofran, gwybed hofran, a chwilod. Tynnwyd y llun hwn yng Nglofa'r Cwm, y Beddau.*
***De:*** *Mae cynefinoedd rhostir a gweundir wedi datblygu ar lawer o domenni. Byddant yn cynnal nifer fawr o rywogaethau di-asgwrn cefn ac arbenigol yr ucheldir a'r mynydd, gan gynnwys* ***cacynen y llus (Andrena lapponica),*** *c***acynen y mynydd (Bombus monticola)***) a* ***tarianbryf y grug (Rhacognathus punctatus)***. *Mae'r rhostir trawiadol yma wedi datblygu ar Domenni'r Gelli, y Rhondda Fawr.*

*Yn dilyn trafodaethau gyda Richard Wistow (Ecolegydd y Sir), nodwyd chwech o domenni gwastraff glofa yn safleoedd astudiaeth. Dyma hwy: Tomen Glofa'r Albion Cilfynydd: Parc Gwledig Cwm Clydach; Glofa Coedelái; Glofa'r Cwm, Y Beddau; Parc Gwledig Cwm Dâr, a Thomenni'r Gelli. Dyma fi yn awr yn rhannu gyda chi rai o'r canlyniadau a gesglais hyd yn hyn. Er cyfleustra, rwyf wedi'u rhannu rhwng y gwahanol grwpiau icreaduriaid di-asgwrn cefn isod.*

***Hymenoptera – Aculeata (Gwenyn, Gwenyn Meirch/Picwn)***
*Nodwyd cyfanswm o 78 rhywogaeth gwenyn, gwenyn meirch/picwn ar y chwe safle. Rhywogaethau gwenyn oedd 65 o'r rhain. Mae hyn yn gyfystyr â bron 25% o ffawna Prydain ac Iwerddon. Roedd 37 rhywogaeth (~47%) heb fod yn gyffredin (hynny yw, roeddent yn lleol, yn anfynych, yn brin, ar restr y Llyfr Data Coch, neu'n un o rywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig. Amrywiai cyfanswm nifer y rhywogaethau wedi'u hadnabod a'u nodi ar unrhyw un o'r safleoedd o 19-45 o rywogaethau; ar gyfartaledd, cofnodwyd 27 o rywogaethau ar bob safle. Roedd rhwng 37% a 50% o'r rhywogaethau a nodwyd ar unrhyw safle benodol yn anghyffredin, gyda chyfartaledd o 42%. Dyma rai o'r rhywogaethau hynny, ynghyd â disgrifiad cryno o'u statws ac o'u cynefinoedd cysylltiedig.*

- ***Andrena coitana (Gwenyn Durio Fechan)*** *– Cafwyd hyd i'r wenynen durio hon yng Nghwm Clydach. Mae'n cael ei hystyried yn anfynych ym mhob rhan o Ynys Prydain, i'w chael mewn ardaloedd rhostiroedd a gweundiroedd yn bennaf**
- ***Andrena dorsata (Gwenynen Durio Flew Cwta)*** *– Cafwyd hyd i'r wenynen durio hon yng Nglofa Coedelái, ac mae'n cael ei hystyried yn brin iawn yng*

*Nghymru. Fe wyddys yn hysbys ei bod yn gwneud defnydd o amrywiaeth o gynefinoedd, gan gynnwys safleoedd rhostir, gweundir, a thir llwyd.**

- ***Andrena lapponica (Cacynen y Llus****) – Cafwyd hyd i hon ar Domenni'r Gelli. Dyma gofnod newydd i Is-sir 41 Morgannwg. Rhywogaeth mewn mannau penodol yw hon, sy'n gysylltiedig â chynefinoedd rhostir a gweundir**
- ***Andrena similis (Gwenynen Durio Gefngoch)*** *- cafwyd hyd i'r wenynen durio genedlaethol anfynych hon ar Domenni'r Gelli ac ym Mharc Gwledig Cwm Dâr. Mae'r rhywogaeth hon yn gwneud defnydd o amrywiaeth o gynefinoedd yn llawn codlysiau**
- ***Andrena wilkella (Gwenynen Durio Wilke)*** *– cafwyd hyd i'r wenynen durio hon ar bob un bron o'r holl safleoedd. Mae'n gyffredin lleol mewn rhai ardaloedd yn Lloegr, ond yn llawer mwy anfynych yn y wlad hon. Mae'r rhywogaeth hon yn defnyddio amrywiaeth o gynefinoedd, gan gynnwys glaswelltir sy'n llawn codlysiau, a gweundir a rhostir **
- ***Anthidium manicatum (Cardwenynen Wlanog)*** *– cafwyd hyd i'r gardwenynen drawiadol a nodedig hon yng Nghwm Dâr. Mae'n cael ei hystyried yn anfynych yn Ynys Prydain. Bydd yn defnyddio amrywiaeth o gynefinoedd, gan gynnwys gerddi, rhostir a gweundir, rhodfeydd coedwig, gwlyptiroedd, a safleoedd tir llwyd**
- ***Bombus barbutellus (Gwenyn y Gog Barbut****) – cafwyd hyd i'r gacynen hon yng Nghwm Clydach. Mae i'w chael yn lleol yn fynych mewn rhannau o Loegr, ond mae'n llawer mwy anfynych yn y wlad hon**
- ***Colletes daviesanus (Gwenyn Mwgwd Davies****) –cafwyd hyd i hon ar Domen Glofa'r Albion, Cilfynydd. Mae'r rhywogaeth gwenyn yn cael ei hystyried yn anfynych yng Nghymru, ac mae'n defnyddio amrywiaeth eang o gynefinoedd blodeuog**
- ***Epeolus cruciger (Gwenynen goesgoch)*** *– cafwyd hyd i hon yng Nghwm Dâr. Rhywogaeth fynych yn lleol mewn ardaloedd rhostir a gweundir**
- ***Hylaeus confuses (Gwenynen wynebfelen)*** *– cafwyd hyd i'r rhywogaeth hon yng Nghwm Clydach; mae'n cael ei hystyried yn gyffredin yn lleol yn Ne Lloegr, ond mae'n fwy anfynych yn y wlad hon**
- ***Lasioglossum cupromicans (Gwenynen dafodflewog)*** *– cafwyd hyd i'r rhywogaeth hon ar Domenni a Thipiau'r Gelli; yn gyffredinol, mae'n anfynych iawn i ffwrdd o'r Gogledd, Canolbarth Lloegr, a Gogledd Lloegr/Cymru*
- ***Gymnomerus laevipes*** *– cafwyd hyd i'r rhywogaeth gwenynen feirch hon, sy'n genedlaethol anfynych ger Glofa Coedelái*

**yn ôl cyfrol 'Field Guide to the Bees of Great Britain and Ireland' gan Steven Falk (2015).*

***Lepidoptera (Glöynnod a Gwyfynod)***

*Cafodd cyfanswm o 23 o rywogaethau o löynnod eu nodi ar y tomenni glofa. Yn ychwanegol at y chwe safle, dyma fi yn ymweld hefyd a Glofa'r Maerdy er mwyn cofnodi glöynnod.* ***Roedd gweirlöynnod llwyd (Hipparchia semele)*** *i'w gweld yn ddigon aml ar holl domenni gwastraff yr ymwelais â hwy. Credaf fod y cofnodion yng Nghilfynydd, Glofa Coedelái, ac o bosibl, Glofa'r Maerdy, yn safleoedd newydd ar gyfer y rhywogaeth. Roedd brithegion perlog bychain (Boloria selenen) yn dal yn bresennol yng Nghwm Clydach, Cwm Dâr, a Thomenni'r Gelli. Fe'u cofnodwyd hefyd ger Glofa'r Maerdy, sy'n safle newydd bosibl ar gyfer y rhywogaeth. Cofnodwyd britheg werdd (Argynnis aglaja) yng Nghilfynydd, Cwm Clydach, Cwm*

*Dâr, Tomenni'r Gelli. Mae'n bosibl taw safleoedd newydd yw'r cofnodion ar gyfer Cilfynydd a Thomenni'r Gelli. Profiad calonogol oedd gweld niferoedd iach o'r glesyn bach (Cupido minimus) yng Nglofa'r Cwm (Y Beddau), y lle i fynd iddo os am weld t glöyn bendigedig hwn yn Rhondda Cynon Taf. Roedd gwibiwr llwyd (Erynnis tages) i'w gael yng Nghwm Clydach, Coedelái, y Beddau, a Chwm Dâr. Mae'n bosibl fod Cwm Clydach a Chilfynydd yn safleoedd newydd ar gyfer y rhywogaeth. Cofnodwyd gweirlöynnod cleisiog (Melanargia galathea) hefyd yng Nghilfynydd. Mae'n bosibl fod hyn yn safle newydd ar gyfer y rhywogaeth. Ac, i gloi, cofnodwyd gwyfyn y* ***cliradain chwe rhesen (Bembecia ichneumoniformis)*** *- un o'r Rhywogaethau Atodiad B sy'n anfynych yn genedlaethol ger Glofa Coedelái. Mae'r ddau hyn yn debygol o fod yn safleoedd newydd ar gyfer y rhywogaeth.*

***Odonata (Gweision Neidr a Mursennod)***

*Mae llawer o'r rhywogaethau o weision neidr a mursennod a gofnodwyd ar y tomenni gwastraff o'r math y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, sef rhywogaethau cyffredin a niferus mewn sawl man gan gynnwys* ***gwas neidr eurdorchog (Cordulegaster boltonii)****,* ***gweision neidr llachar (Aeshna cyanea), picellwr boliog (Libellula depressa), ac ymerawdwr (Anax imperator).*** *Un ffaith ddiddorol oedd i ni weld* ***picellwr cribog (Orthetrum coerulescens****) ger Glofa Coedelái. Roedd niferoedd go lew ohonynt hefyd. Cysylltir y rhywogaeth hon â rhanbarthau ac ardaloedd asidaidd, a chorsiog; yng Nghoedelái, mae'n gwneud defnydd o'r sianelau draenio ac o'r pyllau corsiog ar gyfer magu.*

***Diptera (Clêr)***

*Yn anffodus, nid oes modd i mi ddweud llawer am gofnodion y clêr a chylion hyd yn hyn. Mae'n wir ein bod wedi adnabod y rhan fwyaf o'r rhain, ond beth yw statws mwyafrif y rhywogaethau hyn? Cyffredin, lleol, anfynych, neu beth? Ni fu hyn yn destun ymchwil hyd yma. Ond lle cefais gyfle i ymchwilio, cafodd nifer o rywogaethau diddorol eu hadnabod. Mae'r rhain yn cynnwys:*

- ***Stratiomys potamida (Cadfridog rhesog)*** *– rhywogaeth ogoneddus ei gwedd o bryfed milwrol; cafwyd hyd iddi yng Nglofa'r Cwm, y Beddau. Cysylltir y rhywogaeth hon yn aml iawn ag amrywiaeth o fathau o wlyptir heb fod yn lled-hallt. Maent yn dystiolaeth fel arfer o ansawdd dŵr da. Mae potensial da ar gyfer adnabod a nodi rhagor o rywogaethau o glêr a yng Nglofa'r Cwm.*
- ***Cheilosia lasiopa*** *– darganfuwyd y rhywogaeth pryfed hofran yma ar y tomenni yng Nghwm Dâr; y cofnod cyntaf, mae'n debyg, ar gyfer y De.*
- ***Scaeva selenitica*** *– rhywogaeth anfynych o bryf hofran wedi'i gofnodi yng Nghilfynydd, ac sydd i'w chael ar rostir a gweundir gyda chonwydd.*

*Grŵp y pryfed hofran oedd yr un o ddiddordeb pennaf yn f'astudiaeth i. O edrych yn ôl, serch hynny credaf y dylwn i fod wedi cynnwys grwpiau eraill o glêr hefyd. Credaf fod potensial anferthol ar gyfer cael hyd i rywogaethau o ddiddordeb ymhlith grwpiau eraill. Dyma rai:* ***Tepritidae, Ulidiidae, Sciomyzidae, Stratiomyidae, Asilidae, a Conopidae***

***Heteroptera (Gwir Bryfed)***

*Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn paratoi fy sbesimenau o bryfed yn barod i'w hadnabod. Y tarianbryfed yw'r unig grŵp o bryfed y llwyddais i i'w hadnabod a'u nodi hyd yn hyn, gyda 10 o rywogaeth wedi'u hadnabod yn y maes. Er mawr syndod i mi, cafodd* ***tarianbryf y grug (Rhacognathus punctatus) ei adnabod a'i nodi yng Nghilfynydd. Fel yr awgryma'r enw, cysylltir y rhywogaeth hon â chynefinoedd***

***rhostir a gweundir, lle bydd yn bwydo ar larfâu chwilen y grug*** *(Lochmaea suturalis). Yn ôl papur diweddar a gyhoeddwyd yn 2013, dim ond ar naw safle yn unig y mae'r rhywogaeth hon wedi'i chofnodi yn y wlad hon. Mae pob un o'r rhain yn Warchodfa Natur Genedlaethol, naill ai yn rhannol neu yn gyfan gwbl. Mae'n debyg felly taw dyma'r unig gofnod o darianbryf y grug ar safle tir llwyd yng Nghymru - ac, o bosibl, yn Ynys Prydain i gyd.*

***Homoptera (Neidwyr/Sboncwyr dail a Sboncwyr planhigion***
*Yn ystod haf 2015, mi fûm yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil gyda'r Dr. Mike Wilson, Pennaeth Entomoleg, ac arbenigydd ar hemipteriaid, yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Ar y cyd â dau fyfyriwr oedd yn ymgymryd â Lleoliadau Ymchwil Nuffield yn yr Amgueddfa, dyma ni yn cynnal astudiaeth o'r neidwyr/sboncwyr dail a'r sboncwyr planhigion sydd i'w cael ar domenni gwastraff glofa. Gwneuthum arolwg o bob un o'r chwech safle astudiaeth yn Rhondda Cynon Taf, yn ogystal ag o safleoedd ychwanegol o gwmpas Merthyr Tudful a Glyn-nedd. Cawsom gofnod o gyfanswm o 50 rhywogaeth sy'n eithaf nodedig, yn ôl yr arbenigwyr. Gymaint oedd yr argraff a greoedd yr hyn a welwyd ar Mike nes iddo benderfynu ailadrodd yr astudiaeth y flwyddyn nesaf. Bydd rhagor o fyfyrwyr gydag ef, gyda'r potensial i baratoi data mwy cadarn er mwyn ei gyhoeddi.*

*Gobeithio y byddwch chi, wrth ddarllen y canlyniadau rhagarweiniol hyn, yn cydnabod pwysigrwydd biolegol tomenni gwastraff glofa, a pha mor bwysig yw hi i warchod y cynefinoedd hyn yn Rhondda Cynon Taf. Rwy'n dal wrthi yn coladu, cydlynu, a chrynhoi fy nghanlyniadau. Edrychaf ymlaen at eu rhannu yn rhifyn nesaf Cylchlythyr y Cofnodwyr. Fel ag y mae pethau'n sefyll, cafodd tua 750 o gofnodion rhywogaethau unigol eu cynhyrchu. Erys nifer o wahanol grwpiau creaduriaid di-asgwrn cefn y mae angen eu hadnabod a'u nodi o hyd. Yn anffodus, mae'r arian ar gyfer y prosiect hwn bellach ar ben. Serch hynny, mawr obeithiaf barhau â'r prosiect hwn os yw neu os bydd hynny'n bosibl o gwbl. Hoffech chi gysylltu â mi? Croeso i chi ebostio ataf ar collieryspoil@gmail.com. Croeso i chi ddilyn y prosiect ar Drydar @collieryspoil ac ar Weplyfr drwy www.facebook.com/collieryspoil. Ac mae Croeso i chi ymweld hefyd â'r wefan ar www.collieryspoilbiodiversity.wordpress.com. Hoffech chi gael y newyddion diweddaraf o hyd? Daliwch i wrando!*

**Bryoffytau (Mwsoglau a Llysiau'r Afu)**
Cafodd Mark Evans hyd i ragor o'r **mwsogl gloyw** hyfryd, yn disgleirio ar ei gyfer mewn rhai o'r safleoedd newydd yng Nghwm Cynon, gan gynnwys chwarel fechan yn Nharren-y-bwllfa. Mae Barry Stewart wedi tynnu fy sylw at wefan ardderchog ar gyfer adnabod a nodi bryoffytau. Dyma hi: South Wales Bryophyte blog http://southwalesbryos.blogspot.co.uk/

**Mamaliaid**
Mae Ade Williams wedi adrodd a rhoi gwybod am 290 o **ystlumod pedol lleiaf**, yn fwy nag erioed o'r blaen. o'u clwydfan/nythfa fagu yn rhan dde-orllewinol Rhondda Cynon Taf. Mae hynny yn golygu cynnydd eithriadol yn ffyniant y gytref honno. I waith caled Ade a Barry Long (a fu farw'n ddiweddar, gwaetha'r modd) y mae'r diolch am hynny yn bennaf. Roedd gan David Harry bump o ystlumod pedol lleiaf yn ei gwt yn Llanharan yn gynnar ym mis Awst. Roedd ganddo saith ar y 7fed o fis Hydref, a phedwar ar y 9fed. Rhoes Jeff Williams adroddiad o **ystlum hirglust** mewn cwt yn y Rhondda ym mis Medi.

Crybwyllodd Paul Marshman **ddyfrgi** a welodd cyfaill iddo yn Nhreorci. Atgoffaodd Jeff Williams fi o'r **gwahadden wen** that a ddangoswyd iddo. Anfonodd ef luniau ohono ataf; pethau prin iawn yw gwahaddod gwynion. Rydym ni wrthi'n gyson yn ceisio rhoi tawelwch meddwl i ni ein hunain fod **draenogiaid** yma gyda ni o hyd. Roeddwn i'n falch fod adroddiad David Harry wedi cyrraedd i sôn am y draenogiaid yn ei ardd yn Llanharan. Roeddwn i wrth fy modd yn gwylio draenog yn bwydo ar ym Meisgyn, nifer o nosweithiau yn ymylon glas. I gloi, dangosodd Guy Watkins i mi ryw fideo braidd yn ddirdynnol a brawychus gefn dydd golau â chamera ei ffôn symudol ger maes parcio Heol Sardis ym Mhontypridd. Roedd Guy wrthi yn ffilmio **llygoden Ffrengig** fawr, ac yn frawychus o gall, oedd yn loetran ar y palmant. Yn sydyn reit, dyma **finc** yn saethu fel roced allan o'r golwg. Fflachiodd mellten frown flewog yn syth at wddw'r llygoden Ffrengig. Bu gwichian a sgrechan ofnadwy am ychydig eiliadau, a diwedd y gân i'r llygod Ffrengig oedd diddymdra. Dyma Natur yn goch mewn dant ac ewin, ac ni chysgais i ryw lawer am wythnos.

**Cofnodi Bywyd Gwyllt**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi rhoi contract i Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (CCBDDdC) i redeg cyfres o achlysuron hyfforddi. Diben y rhain yw addysgu **medrau cadw cofnodion biolegol** i aelodau tair cymuned leol ym mhob rhan o Rondda Cynon Taf. Ym mhob un o'r lleoliadau, byddwn ni'r rhedeg sesiwn hyfforddiant undydd ar bwnc. **'Cyflwyniad i Gofnodi Biolegol**. Sesiwn dan do fydd hon, wedi'i hanelu at bobl sydd â diddordeb yn eu bywyd gwyllt lleol, ond gydag ychydig neu ddim profiad o gofnodi. Bydd y cwrs yn cynnwys pynciau megis y canlynol:

- Elfennau sylfaenol cofnodi biolegol: beth bydd angen i ni'i gofnodi, a pham; ac
- Sut i droi nodiadau bywyd gwyllt a welwyd yn gofnodion biolegol i'w defnyddio er mwyn diogelu a chyfoethogi yr amgylchedd lleol.

Ym mhob un o'r lleoliadau, ar ôl hynny fe fyddwn ni'n cynnal a rhedeg **diwrnod cofnodi maes** (BioBlits mini) wedyn. Bydd hyn yn cynnwys y rheiny sydd wedi mynychu'r sesiynau hyfforddi, ynghyd ag aelodau o'r gymuned ehangach. ***Yn ychwanegol at hynny, rydym ni'n eithriadol o awyddus i ymgysylltu â chofnodwyr ac arbenigwyr profiadol lleol. Gobeithiwn fanteisio ar eich arbenigedd, arddangos eich sgiliau maes ac adnabod, ac ysbrydoli pobl leol i gymryd rhan mewn gwaith cofnodi biolegol yn eu hardal leol.***

Ar hyn o bryd, mae dwy sesiwn hyfforddiant wedi cael eu trefnu:
**Dydd Llun 15fed** Chwefror 10:15yb-3:30yp, **Capel Bedyddwyr Blaen-y-Cwm, Wyndham Street, Tŷnewydd**, CF42 5BT. Yn dilyn yr achlysur yma fe fydd diwrnod cofnodi maes gerllaw yn **Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cwm Saerbren** ar ddiwrnod canol wythnos (dyddiad i'w gadarnhau) tua diwedd Mawrth.

**Dydd Sadwrn 29 Mawrth:** 10:15yb-3:30yp, **Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant**, Ffordd Cefn-yr-Hendy, Meisgyn, Pont-y-Clun, CF72 8TL. Yn dilyn yr achlysur yma fe fydd diwrnod cofnodi maes gerllaw yn **lle agored cyhoeddus arfaethedig Cefn-yr-Hendy**ar ryw Nos Wener (dyddiad i'w gadarnhau) ym mis Mau neu Fehefin.

Cynhelir y trydydd o'r achlysuron hyfforddiant ym **Mharc Gwledig Cwm Dâr**, Aberdare. Nid oes manylion dyddiadau ar gael eto.

Nifer gyfyngedig o leoedd sydd ar bob un o'r achlysuron hyfforddi. Serch hynny, bydd y diwrnodau cofnodi maes yn agored i bawb. Oes gennych ddiddordeb mewn mynychu a dilyn un o'r sesiynau hyfforddi? Ydych chi'n credu ei bod yn bosibl y byddwch chi efallai yn gallu cynnig eich arbenigedd ar gyfer diwrnod maes? (Bydd hyn i gyd yn dibynnu ar gadarnhau dyddiadau, wrth reswm.) Croeso i chi ebostio: adam.rowe@sewbrec.org.uk. Cyhoeddir manylion llawn maes o law yng Nghalendr Digwyddiadau Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (gweler: http://www.sewbrec.org.uk/digwyddiadau/events-calendar-w/

Dyna ddigon am y tro, fodd bynnag.  Mae gennym ryw syniad taw braf o beth fyddai paratoi Cylchlythyr byr arall ym mis Mawrth. Gallai hwn restru'r holl achlysuron ynghylch y bywyd gwyllt ayyb yn Rhondda Cynon Taf yn ystod 2016. Oes rhywbeth ar y gweill gyda chi? Rhowch wybod i mi, a bydd modd ei gynnwys. Diolch i chi i gyd unwaith eto, gan edrych ymlaen at 2016 hapus ac yn llawn bioamrywiaeth.

Richard Wistow
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,
Tŷ Sardis,
Heol Sardis,
Pontypridd
CF37 1DU

Richard.j.wistow@rctcbc.gov.uk